

ECO'R WYDDFA

RHIF 304

HYDREF 2003

PRIS 40c

- **O Lundain i Baris**
ar feic...taith tad a mab
o fro'r Eco – tudalen 3

- **Rygarug** – tudalen 5

PENCAMPWR CYMRU

– Llwyddiant i redwr o Lanrug



Robin Halliday o Lanrug a Chlwb Rhedwyr Eryri yw Pencampwr Rhedeg Mynydd Cymru am eleni. Mewn cystadleuaeth dynn iawn gydol y tymor, daeth Robin i'r brig gyda'r nifer mwyaf o bwyntiau mewn pedair ras allan o chwech. Roedd eisioes wedi cael canlyniadau da iawn ar ddechrau'r tymor, gyda rاسus ym Mhen Cerrig Calch, Moel Eilio ac Elidir. Gan iddo fethu cystadlu yn Nant y Moch a'r Waun Fach, roedd y cyfan yn dibynnu ar y ras olaf yn y gyfres, sef ras hir Bannau Brycheiniog ddiwedd Awst. Gallai unrhyw un o bump rhedwr fod wedi ennill y bencampwriaeth yn ôl canlyniadau'r ras honno, ac er mai James McQueen (eto o Glwb Rhedwyr Eryri) oedd yn fuddugol, roedd ail safle i Robin yn ddigon iddo hawlio'r bencampwriaeth o ddau bwynt yn unig.

Cadarnhaodd ei allu fel rhedwr mynydd yn Ras Pedol Peris yn ystod y mis diwethaf, gan gwblhau'r deunaw milltir o redeg ac 8,500 troedfedd o ddringo (gan gynnwys mynyddoedd Elidir, Y Garn, Y Glyder, Lliwedd, Yr Wyddfa a Moel Cynghorion) mewn amser o 3 awr a 49 munud. Roedd bron i chwe munud ar y blaen i'r ail redwr yn y ras. Credir fod y canlyniad hwn wedi bod yn ddigon iddo hefyd hawlio pencampwriaeth Clwb Rhedwyr Eryri.

Maggie Oliver o Ddinorwig yw Pencampwraig Rhedeg Mynydd Cymru dros 50 oed.

Dylid hefyd longyfarch Alun Vaughan o Lanberis a Jayne Lloyd o Gaeathro ar gael eu dewis i gynrychioli Cymru ym Mhencampwriaethau Rhedeg Mynydd y Byd yn Alaska. Gall Dylan Wyn Jones o Ddeiniolen gyfrif ei hun yn anlwcus o beidio ennill ei le yn y tîm. Er iddo redeg yn arbennig o dda yn y ras brawf yn y Waun Fach, penderfynodd y dewiswyr roi lle yn y tîm i ddau redwr a dorrodd reolau'r ras! Anfonodd Cymdeithas Rhedwyr Mynydd Cymru a Chlwb Rhedwyr Eryri brotest i Gymdeithas Athletau Cymru, ond ni roddwyd ystyriaeth i'w cwyn. Profodd Dylan ei fod yn gallu cystadlu â rhedwyr gorau Prydain pan ddaeth yn wythfed yn Ras Ben Nevis yn gynharach fis Medi.

Gyda'r tymor rاسus mynydd yn dirwyn i ben, bydd un cyfle ar ôl i redwyr y fro, pan fydd nifer ohonynt yn cynrychioli Clwb Rhedwyr Eryri ym mhencampwriaethau rاسus cyfnewid ar fynydd yn Church Stretton ganol fis Hydref. Mwy am hynny yn y rhifyn nesaf.

ECO'R WYDDFA

**RHIF 304
HYDREF 2003**

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cydnabyddir cefnogaeth
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
i'r cyhoeddiad hwn.

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Tim Golygyddol
d/o PALAS PRINT
7B STRYD PLAS
CAERNARFON
Ffôn/Ffacs (01286) 674631
eco@palasprint.com

Eirian James (01286) 674631
Bryn Jones (01286) 674405
Llinos Jones (01286) 871820

CADEIRYDD Y PWYLLGOR GWAITH

Arwel Jones

GOLYGYDD CHWARAEON
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

FFOTOGRAFFWR
Gwyndaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (677263)

TREFNYDD HYSBYSEBION
John Roberts, Bedw Gwynion, Ffordd
Glanffynnon, Llanrug (675605)

TREFNYDD BWNDELU
Jean Jones, Cesail y Mynydd,
Deiniolen (871550)

TRERFNYDD ARIANNOL
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHANT POST
Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD PLYGU
Shioned Griffith (650570)

GOHEBWYR PENTREFI

BETHEL: Geraint Ellis, Cilgeran
(01248) 670726

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-
Williams, Godre'r Goed (870580)

CAEATHRO: Clive James, Hafan, Bryn
Gwna (677438)

CEUNANT: Tryfan a Shioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650788)

GWYN-Y-GLWY: Mrs Iris Howlands,
Glanrafon (872275)

DINORWIG: Marian Jones, Minalti,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

DEINIOLLEN: Mrs Margaret Cynfi Griffith,
(870394)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion Roberts,
Sŵn-y-Gwynt (870740)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn
(675384)

NANT PERIS: Llinos Jones, 6 Nant
Ffynnon (871820)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans, Sycharth
(872407)

TAN-Y-GOED: Miss Anwen Parry,
Ael-y-Bryn (872270)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts, Pantafon,
Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF

Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol
NOS LUN, HYDREF 20

Os gwelwch yn dda

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg

NOS IAU, HYDREF 30

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Mrs Shioned Griffith, Pantafon, Waunfawr. (01286) 650570

Rhifyn	Dyddiad Copi	Dyddiad Plygu	Ble	Cysylltu â	Rhif Ffôn
Tachwedd	20 Hydref	30 Hydref	Llanberis	Gwilym Evans	870625
Rhagfyr	17 Tachwedd	27 Tachwedd	Caethro	Clive James	677438
Nadolig / Ionawr	8 Rhagfyr	18 Rhagfyr	Ysgol Brynrefail	Eifion Jones (Prifathro)	672381

Llythyr

Neuadd Glasgoed
LLANRUG

Diolchiadau lu am gymorth
hael ac i'r siopwyr am gefnogi'r
ymdrech i godi arian tuag at
Gancr y Fron yng Nghymru
Amgaeir y fantolen.

Cofion

Linda a Guto

Rhoddion	£208.00
Siec Ymchwil Cancr	£ 10.00
Stondinau Glasgoed	£119.47
Raffl yng Nglasgoed	£31.00
Taith Gerdded	£208.00
	£576.47

Dosbarthwyd yr uchod fel â
ganlyn ar eich rhan:

1. Siec £500 i Ward Alaw (Trin
Cancr) Ysbyty Gwynedd,
dydd Mercher 27 Awst 2003
2. Siec £10 tuag at Ymchwil
Cancr a drosglwyddwyd i
Ysbyty Gwynedd dydd
Mercher, 27 Awst.
3. Lliniaru Cancr/Trefniant
Macmillan, 26 Stryd y
Farchnad, Abergele.
Postiwyd siec am £33 dydd
Iau, 28 Awst.
4. Siec £33 tuag at Gofal Cancr
y Frest Cymru, Llawr laf, 14
Heol yr Eglwys Gadeiriol,
Caerdydd, a bostiwyd dydd
Iau 28 Awst.

Trefnwyd: Neuadd Glasgoed,
Llanrug mis Awst, 2003
DIOLCH ENBYD!

BBC Cymru Wales

Mae gan eich papur bro safle
gwe arbennig ar wefan Gymraeg
y BBC, sef Cymru'r Byd.
Gallwch ddarllen un erthygl
newyddion yn fisol ar y safle, yn
ogystal ag edrych ar oriel o
luniau a darllen erthygl am
hanes y fro, cymryd golwg sut
mae ar y ffyrdd gyda chamerau
traffig byw, yn ogystal a gweld
rhagolygon y tywydd yn eich
ardal chi.

I gyd-fynd â'r safle, rydyn ni
wedi dylunio cardiau post
arbennig o'r ardal, ac amgaeaf
ychydig ohonyn nhw i'w
dosbarthu fel y gwelwch orau.

Rydwy i'n awyddus iawn i
faint bynnag o ddarllenwyr eich
papur a phosib i dderbyn y
cardiau arbennig yma, os ydynt
yn dymuno, felly peidiwch ag
oedi i gysylltu â mi os ydych am
i mi anfon fwy at eich sylw chi
i'w dosbarthu.

Gallwch ymweld a safle eich
papur bro trwy fynd i'r cyfeiriad
yma: www.bbc.co.uk/cymru/
gogleddorllewin ac yna clicio
ar enw eich papur chi.

Mae croeso i chi gysylltu a mi
os hoffech fwy o fanylion am y
gwasanaeth ar-lein Cymraeg i
sgrifennu pwt o stori i'w
gynnwys yn eich papur bro.
Medraf e-bostio llun ac erthygl/
manyion am erthygl i chi - neu
gael sgwrs dros y ffôn.

Edrychaf ymlaen i glywed
gennych.

Elin Wyn Davies

TŷGOBAITH

Taro'r Nodyn Cywir!

Y mae cyfle prin wedi dod i'r
amlwg drwy ffurf cystadleuaeth
gan Tŷ Gobaith - i ennill piano
Oxford hardd, ac yn wir
unigryw gan gwmni Kemble &
Co. Mae'r piano wedi ei lofnodi
gan Bryn Terfel, Noddwr Tŷ
Gobaith ac fe'i cyflwynir i'r
ennillydd yng Nghyngerdd Mil
o Leisiau'r Nadolig sy'n cael ei
gynnal ym Mhafiliwn
Llangollen ym mis Rhagfyr.
Dywedodd Eluned Yaxley,
Trefnydd Apel Tŷ Gobaith
'Rydym wrth ein boddau gyda'r
cyfle unigryw yma, ac hefyd
rydym mor ddiolchgar i Bryn,
Cwmni Piano Kemble a Siop
Eifionydd am eu cefnogaeth
hael.'

I ennill, y cyfan sy'n rhaid ei
wneud yw cwblhau'r frawddeg
yma yn eich geiriau eich hun
(heb fod yn fwy nag 20 gair):

'Fe hoffwn i ennill y piano
Oxford oherwydd ...'

ac yna gyrru'ch ffurflenni gais i:
Hope House, Lôn y Nant,
Morda, Croesoswallt, Sir
Amwythig. SY10 9BX ynghyd â
£1 i gystadlu, eich enw, cyfeiriad
a rhif ffôn. Ceir cystadlu cynifer
o weithiau ac y mynnwch.

Am ragor o wybodaeth neu
lun o'r piarno, cysyllter ag
Eluned Yaxley, Trefnydd Apel
Tŷ Gobaith: 01824
709892/07734 145385 neu
Swyddfa'r Apel: 01691 671671

Gwneud yn fawr o fywydau byr
ac arbennig

DRAENOG

Glywsoch chi sôn am y
cogydd a'i wraig o Lanber?
Roedd trip i Werddon wedi'i
drefnu i ddathlu pen-blwydd
eu cyfaill yn 50 oed. Wel am
ddiwrnod bythgofiadwy!
Daeth yn amser mynd adref ac
roedd rhaid cael trên i'r
porthladd. Ar ôl cyrraedd,
allan â phawb ar y platform,
ond caeodd drysau'r trên yn
wyneb p(H)ws y gŵr, ac i
ffwrdd a'r hi!

'Be 'nawn ni rŵan?'
meddai'r wraig mewn panic.
'Aros yn y steshion i'r trên
ddod yn ôl? Ie dyna fydd
galla.'

Ond roedd y gŵr yn
gallach. Mae'r llong yn gadael
toc, meddyliodd wrtho'i hun,
felly cafodd darsi i'r porthladd
ar ei union. Ymhen hir a
hwyr, cyrhaeddodd pawb, ond
gwelsant y llong ar y gorwel
felly chwilo am wely am
noson arall oedd raid!

Ymestyniad Ffôn wedi Torri?
Angen rhai Newydd? os felly

FFONIWCH

(01286) 650247 neu (07780) 811617 (symudol)

Eifion Hughes (7 diwrnod)

Gwasanaeth Da am Bris anhygoel


GWYN JONES

**FFENESTRI ERYRI
GARTH ISAF, LLANRUG**

(01286) 650764

neu

W. G. Roberts (Wil Korea)
676741



BLYNYDDOEDD O BROFIAD YN Y MAES

FFENESTRI

DRYSAU

DRYSAU PATIO

PORCHES

BYRDDAU FFASIA

CLADIO

CONSERFATERIS

DOL GLWT A BEIC I BARIS



Dyfed a Dafydd wedi cwblhau'r daith.

Gyda degau o bobl yn marw o ganlyniad i effeithiau'r gwres yn Ffrainc, doedd hi ddim yn argoeli'n dda i Dyfed a Dafydd Whiteside Thomas o Lanrug, a oedd ar fin cychwyn ar daith feicio o Lundain i Baris ddiwedd Awst. Amcan y daith oedd casglu arian at Elusen Myasthenia Gravis, afiechyd a elwir yn gyffredin yn 'Salwch y Ddol Glwt' oherwydd fod cyhyrau'r corff yn aml yn llipa a'r claf yn teimlo'n flinedig. Hyd yn hyn, does dim gwellhad i'r afiechyd, ond gellir ei reoli drwy gyfrwng llawdriniaeth a chyffuriau.

Deunaw o feicwyr a gasglodd ynghyd ar dir agored Blackheath, Llundain am saith o'r gloch un bore Iau. Roedd angen beicio i Dover mewn da bryd i ddal y cwch i Calais am bump. Cynlluniwyd llwybr beicio bendigedig gan y trefnwyr; llwybr oedd yn cadw pawb oddi ar y priffyrdd, ac yn dilyn ffyrdd gwledig drwy swydd Gaint. Braf oedd cael gadael dwndwr trafniadaeth gynnar yn Dartford ac anelu am ddistawrwydd y North Downs. Gwnaeth y trefnwyr yn siŵr ein bod yn cael cystal golwg â phosibl ar 'Ardd Lloegr', ac o ganlyniad bu'n rhaid dringo rhai o'r gelltydd byr (ond serth iawn!) a gyrchai gopa cefn y North Downs. Ar gyfnodau hefyd roedd y criw yn dilyn Llwybr y Pererinion, gan ddilyn ôl troed Chaucer a'i gyfoedion am gadeirlan Caergaint. Ond mac'r llwybr yn llawer hynach na hynny hyd yn oed, oherwydd dyma'r Harroway gwreiddiol - y Ffordd Galed - a arweiniai o Dover ar hyd de Lloegr i Gôr y Cewri (Stonehenge). Ar hyd y llwybr hwn y teithiodd yr

ymfudwyr cynharaf, bum mil o flynyddoedd cyn Crist, pan oedd pont o dir yn cysylltu Prydain â thir mawr Ewrop. Aros yn Newnham ganol dydd am bryd o fwyd, a mwy na hanner y daith wedi ei chwblhau. Erbyn cyrraedd Barnham ganol y prynhawn, roedd dros saith deg o filltiroedd tu cefn, a chwta awr o feicio o'n blaenau i Dover. Pedwar ohonom yn penderfynu beicio ymlaen heb ddisgwyl am y gweddill, er mwyn cael digon o orffwys yn Dover cyn croesi. Yn anffodus, methwyd un o'r arwyddion ar y groesffordd nesaf, a phan ddaethom i olwg y môr a'r porthladd, sylweddolwyd ein bod yn Folkestone yn hytrach na Dover! Er hynny cawsom groeso brwd gan bawb arall, a oedd wedi cyrraedd Dover gryn dipyn o'n blaenau! Wedi croesi

a glanio, roedd chwe milltir arall o feicio cyn cyrraedd ein gwesty. A dyna sut y bu i bedwar ohonom feicio bron i gan milltir ar y diwrnod cyntaf.

Byddai'n rhaid bod yn fwy gofalus yn ystod yr ail ddiwrnod. Roedd Ffrainc yn wlad fawr iawn i fynd ar goll ynddi! Cychwyn yn gynnar eto ar fore Gwener. Roedd hyn yn ein harbed rhag gorfod beicio gormod yng ngwres tanbaid y dydd. Cyrchu tua'r de y tro hwn, gan ddilyn lonydd cefn unwaith eto. Disgyn i mewn ac esgyn allan o ddyffrynoedd afonydd oedd patrwm y diwrnod. Y criw i gyd yn beicio'n gyfforddus, a fawr neb yn cwyno am y gelltydd. Erbyn canol pnawn cael egwyl ger hen felin ddŵr, a dilyn dyffryn cul a arweiniai maes o law i safle brwydr Crecy. Cyrraedd Abbeville yn gynnar a loetran mewn parc yng nghanol y dref tra roedd y trefnwyr yn chwilio am orsaf y rheilffordd. Roedd gŵyl grefyddol yn cael ei chynnal yn Abbeville, a phob gwesty'n llawn. Byddai'n rhaid i ni deithio ar drên i ddinas Amiens. Cael mwy o orffwys yn Abbeville na'r disgwyl oherwydd i'r trefnwyr gael trafferthion gyda'r heddlu ar gyffordd yng nghanol y dref.

Gan nad oedd yn bosibl ail-gychwyn o Abbeville, roedd y trefnwyr wedi gorfod ail-gynllunio llwybr o Amiens ar draws gwlad i gyfeiriad Beauvais. Colli gweld mynwentydd y Somme, ond troelli drwy diroedd amaethyddol cyfoethog, a'r gwres a'r sychder diweddar yn amlwg yn cael effaith ar y cnydau. Erbyn cyrraedd Beauvais roedd dros dri chwarter y daith wedi ei chwblhau, a beicio cyfforddus a di-drafferth yn ein wynebu ar y cymal olaf o Beauvais i Baris. Croesi afon Theram yn gynnar fore Sul a derbyn croeso swyddogol mewn pentref bychan a oedd wedi efeillio ag



1 Cei Llechi
Caernarfon
01286 676804
07770 951007

**Ffair Nadolig yng
Ngwesty Carreg Brân
Llanfairpwll**

Dydd Sul, Tachwedd 2

Beics o bob maint,
Trelars,
Beics tynnu i blant
a Nwyddau Beicio

*Bargeinion ar gyfer y
Nadolig!!*

ardal yn yr Alban. Roedd aelod o bwyllgor y gefeillio o'r Alban yn cyd-feicio â ni. Cyrraedd maesdrefi Paris, a'r gwres yn llethol a thrymaidd. 33 gradd selsiws, a dim golwg o'r haul! Beicio am bron i ddwyawr drwy strydoedd cefn y ddinas cyn ymgynnull yn un osgordd ar y rhan olaf heibio'r Arc de Triomphe ac i lawr y Champs-Elysees. Rhyfeddu at ddawn, gallu a dewrder beicwyr y Tour de France yn medru rhuthro ar y fath gyflymder dros yr wyneb palmentog.

Diweddu'r daith dan Dŵr Eiffel am dri o'r gloch y prynhawn. Tri chan milltir o feicio mewn pedwar diwrnod, ond yn bwysicach, rhai miloedd o bunnau wedi eu casglu tua'r elusen.

* * *

Dyfed a Dafydd oedd yr unig ddau o Gymru i gymryd rhan yn y daith nodedig. Mae'r deunaw o feicwyr wedi casglu dros £10,000 rhyngddynt, a chyfraniad y ddau o Lanrug yw £2,500. Dymuna'r ddau ddiolch o galon i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw fodd tuag at y daith. Os am fwy o wybodaeth am Elusen Myasthenia Gravis, cysylltwch â Dafydd ar 01286 673515.



Cynhaliodd Academiau Karate Llanberis a Bocsio-cic Llanrug noson o ffurwydd nodedig i godi arian tuag at ymdrech y ddau o Lanrug. Roedd dros 80 o aelodau'n cymryd rhan a chasglwyd cyfanswm o £890. Alicia Jones o Lanberis ac Angela Cyster o Lanrug gasglodd fwyaf o noddwyr, a chyflwynwyd y ddwy ag offer diogelwch gan eu hyfforddwyr, Sara a Brent Burman. Mae'r llun yn dangos Dyfed a Dafydd gydag aelodau ieuengaf Academi Karate Llanberis.

O SIAMBAR SELWYN

'Pentre anysbyrdoledig yw Bethel a dim yn digwydd yno, mae'n siŵr, ond haul a glaw a gwynt.'

Na, nid fi sy'n meiddio gwneud y fath ddatganiad. Y diweddar Alun Llywelyn Williams, yn ei gyfrol *Crwydro Arfon*, a fentrodd awgrymu hyn am bentre genedigol ei gyn-athro W.J. Gruffydd. Roedd hyn hanner can mlynedd yn ôl.

Ers hynny mae Bethel, fel amryw o bentrefi eraill, wedi dyblu os nad treblu yn ei faint. Petaech chi'n byw ym Methel tua 1920-30 mi fydddech chi'n byw mewn pentre bach gwledig gyda thua ugain o siopau/busnesau yno. Pentre llawer iawn llai nag ydi o heddiw. Ond er y newid maint dim ond dwy siop sydd ym Methel heddiw, ond mae yma bellach un dafarn ac un garej ac un neu ddau o fân fusnesau.

Mae'r tri chapel yma o hyd, ond er y cynnydd ym mhoblogaeth y pentre, mae 'na fwy o seddau gweigion na seddau llawn ynddynt. Mae hen Eglwys St Teilo yn gartre i'r henoed. ac mae'r allor a arferai fod yno wedi ei ddiogelu mewn cornel yn Eglwys y Felinheli.

Ugain o siopau? Ym Methel? Does bosib. Dowch, fe âf a chi am dro o gwmpas yr hen bentre.

BRYN CHWILOG. Gweithdy crydd Fred Williams. Fred Crydd fyddai'n gwerthu woodbines i ni fesul un yn nyddiau cynnar y salwch smocio.

PEN Y BUARTH. David Roberts. Roedd o'n gwerthu glo a Dic, yr hen geffyl, yn tynnu'r cerbyd. Byddai Dic hefyd yn dal swydd o barch ar ddiwrnod angladdau. Fo fyddai rhwng llorpiâu'r hers, cyn dyddiau'r hers modur.

TYN LŌN. Mary Williams. Mam Cledwyn Williams, cyn-brifathro Llanrug. Roedd hi yn gwerthu paraffin.

BRON MEILLION. Morris Williams, Saer Coed, fo fyddai'n gwneud eirch. Rwy'n cofio llofruddiaeth yn y tŷ hwn. Wrth ymyl Bron Meillion roedd Efail y Gof. Joni Refail fel yr adwaenid o, oedd y gofaint. Dyn gwyllt ei dymer, yn enwedig pan fyddem ni'n mynnu troi Gors Tyddyn Bach (ei gartref) yn Wembli. Ond eto, dyn ffeind hefyd ac yn barod iawn i drwsio ein colchyn haearn yn rhad ac am ddim. Lle da i g'nesu yn ystod dyddiau oer y gacaf fyddai'r Efail.

BRO DIRION. Siop yn gwerthu blawd a phob math o nwyddau.

TREFLYN. Siop Bob Parry fyddai hon i ni. Dyma'r unig siop sy'n dal i fod yn y pentre ers dyddiau fy mhleentyndod.

TRE'R GOF. Mi fuo 'na Siop Chips yma. Nain Frank Jones, cyn-Brifathro Dyffryn Ogwen, oedd yn cadw'r busnes, ond does gen i ddim cof am hon.

PARC-Y-WERN. Mi fuo 'na Siop Crydd yma hefyd ar un adeg.

* * *

Brysiwn i bentre Saron. Dyma galon y pentre yn yr hen ddyddiau. Roedd 'na tua deuddeg siop yma ar un adeg.

SIOP WILLIAM HUMPHREYS. (Tŷ Rhos) Gwerthu pob math o nwyddau, tatws a llysiau. Roedd 'na garej yma i gadw un bys, a redai i Gaernarfon am wyth geiniog (return). O oedd, roedd 'na bwmp petrol o flaen y garej, ac fe gaech dacsio os dymunech.

SIOP DAVID HUMPHREYS, oedd y llall. Fe werthid yma bob math o fwydydd anifeiliaid **SIOP DIC BARBAR.** Do, mi ges i sawl 'short back an' sides' yn y Cwt Barbar. Doedd 'na ddim peiriannau trydan yr adeg honno. 4c am dorri gwallt merched. 3c i ddynion a 2c am shêf. Rwy'n talu yn agos i £5 am dorri y tipyn gwallt 'ma heddiw ac mae gen i gryn dipyn llai ohono fo hefyd.

Yng ngefn Siop Dic Barbar roedd Siop Tomi Alun (brawd Deiniol Williams). Roedd hon yn siop bwysig ac yn siop enwog iawn sef **ALLENS COUGH MIXTURE.** Oedd, roedd Cymru gyfan yn gwybod am y ffisig arbennig hwn. Roedd 'na rhywbeth at bob anhwylder i'w gael yn **SIOP TOMI ALUN.** Roedd 'na Weithdy Crydd yma hefyd.

SIOP JAMES DAVIES, **GWYNANT.** Siop yn gwerthu popeth bron. Roedd James Davies yn gigydd hefyd. Mi fydda fo'n lladd defaid yn y lladd-dy yng ngefn yr ardd a sawl tro y clywom ni wic yr anifeiliaid. Roedd ganddo gi o'r enw Don, ac fel James Don y cyfeiriem ni blant ato.

SIOP DRYGIST. Siop Edward Williams, sef tad Tomi Alun a Deiniol. Roedd 'na bopeth yma at bob math o salwch. O'r fan yma y byddai mam yn cael yr asiffeta diawl hwnnw i stwffio i lawr fy nghorn gwddw i. Roedd Edward Williams yn gwerthu dillad hefyd a synnwn i ddim mai yma y cefais fy siwt gynta 'rioed. Mae gen i gof byw arall am Edward Williams.

Ato fo y byddwn i'n mynd yn rheolaidd am gyfnod i gael gwersi piano. Dwi'n cofio ogla lledr y bag miwsig newydd sbon yn loctran yn fy ffroenau, a'r sgrol o fwsig fel penabylliaid yn hongian ar wifrau teligraff o fy mlaen. Na, lwyddodd Edward Williams ddim i wneud pianydd ohona i. Ond nid ei fai o oedd hynny.

SIOP 'LINOR MAY neu **SIOP WIL HUW,** ac i'r genhedlaeth flacnorol **SIOP MARGIAD JONES.** Roedd pob math o dda-da i'w cael yma, baco main, licris

bôl, jeli bebis a 'lyci bag'. Roedd sgidiau a chlociau i'w cael yn y siop hon hefyd. Mae llawer o'm cyfoedion yn cofio fel y bu i ni roi 'jumping jack' yn y glorian yno un noson, ac fel y cawsom ni *chase* gan William Huw am ein gweithred, a galwad gan 'Flash', y plismon pentre.

Dros y ffordd roedd Mr a Mrs Harrison yn cadw **SIOP CHIPS.** Mi fuo 'na Siop Chips wedyn gyferbyn â thai Corra Linn. Ydi, mae pobl Bethel dros y blynyddoedd wedi bod yn hoff o fish a chips.

Roedd y **POST** union gyferbyn â chartre St Teilo, lle mae John a Lisabeth, (Blaen Parc gynt) yn byw heddiw. Modryb i Lisabeth, sef Ceinwen fu'n gofalu am y Post am flynyddoedd.

Tydw i ddim yn cofio'r becws a oedd ynghlwm â chartre W.J. Gruffydd, sef Gorffwysfa, ond mi rydwi'n cofio **SIOP BACH,** sef cartre y diweddar Alfred Jones a ymfudodd i Awstralia. Mi ges i'r fraint o ymweld â'i gartre ar y dau achlysur y bûm i ym mhen draw'r byd. Roedd tad Alfred, sef William Jones, yn arbenigwr ar drin beics a thrwsio pynjars.

* * *

Mae'n rhyfeddod tydi. Cymaint o siopau mewn pentre mor fach. Pan fydd Huwycyn yn teimlo'n bryfoclyd, ac yn gwrthod i mi lithro i fro breuddwydion, mi fydda i'n crwydro rownd yr hen bentra ac yn dwyn i gof: Smocio wdbein yn Cwt Ffred Crydd; prynu 'lyci bag' yn Siop 'Linor May; mynd o gwmpas y pentra ar lori lo Dafydd Penbuarth, neu i Gaernarfon bell ar fys Wili Wmffras Tŷ Rhos. Yna lithro'n hapus am bedair awr o gwsg ar bulw fy atgofion.

Na, doedd Bethel ddim yn bentre anysbyrdoledig yn nyddiau fy mhleentyndod cynnar i. Roedd mwy na 'haul a glaw a gwynt' yn digwydd yno.

GWERSI PIANO A CHANU

Sharon V. Williams B.A.
Pentir (01248) 353746

IEUAN WILLIAMS

Glanffrwd
DEINIOLEN
(01286) 870484

► Bysiau o 12 i 53 sedd

► Teithiau Lleol a Thramor

► Gwaith Contract

► Telerau arbennig i
bensinywyr, myfyrwyr a
phlant ysgol

I drin a thrwsio pob math o beiriannau gwnïo MENAI SEWING MACHINE CENTRE

21 Stryd Fawr
PORTHAETHWY

Ffôn: (01248) 714043

neu Caernarfon

Ffôn: (01286) 674520

Edau, Nodwyddau
ac ati mewn stoc

Pa un o'r rhain sydd
bwysicaf?

YSWIRIO EICH Tŷ
(i arbed colled i chi);

YSWIRIO EICH CAR
(i arbed colled i chi); neu

YSWIRIO EICH BYWYD
(i arbed colled i'ch teulu)

Cysylltwch â'r isod i weld mor rhad
yw cost yswiriant gyda **CDH**

Andre (Bethel/Llanberis)
Bryn (Môn)

Euryn (Caernarfon a'r cylch)
John Eifion (Penisarwaun)

CDH

Ymgynghorwyr Ariannol
Annibynnol Lleol (sefydlwyd 1974)
Ffôn: (01248) 355055

CEFNOGWCH FUSNESAU LEOL

CEIR CYMRU

Bethel (01248) 670451

(Hefyd yng Ngherrig-y-Druidion)

Fel cwmni hoffem ddiolch i'r cannoedd o gwsmeriaid a gefnogodd ein busnes dros y blynyddoedd diwethaf. Rydym yn fusnes Cymreig sy'n amcanu i roi gwasanaeth ceir proffesiynol ac i werthu ceir am brisiau di-guro. Mae gennym brynwyr proffesiynol yn teithio dwy fil o filltiroedd yr wythnos i chwilio am y ceir gorau am y prisiau isaf.

'Rhowch gyfle i fusnesau Cymreig lleol ddangos eu gwerth yn hytrach na chwmnïau dyfod ac archfarchnadoedd Scisnig!'

RYGARUG



Llun o ferched y grŵp Stepio – Megan, Manon, Efa, Elliw, Catrin, Anest a Ffion cyn cystadlu yn Eisteddfod Yr Urdd Tarwe Nedd ac Afan ar y Ddawns Stepio Dan 25.

Nosweithiau Agored Rygarug

Dyma eich cyfle i gofrestru ar gyfer gweithgareddau'r tymor newydd a gweld fideo 'Digon Teg!' am y tro cyntaf!

Nos Fercher, 1 Hydref: Ysgol Gynradd Llanrug 6pm–8pm

Nos Iau, 2 Hydref: Ysgol Dolbadarn, Llanberis 6pm–8pm.

Nos Wener, 3 Hydref: Ysgol Gwaun Gynfi, Deiniolen 6pm–8pm

Eleni, gyda chymorth grantiau gan Gyngor y Celfyddydau,

Mantell Gwynedd a'r Cynghorau Cymuned lleol, bydd Rygarug yn cynhyrchu sioe lwyfan wreiddiol yn seiliedig ar hanes a llên gwerin Dyffryn Peris. Unwaith eto byddwn yn galw ar enwau a gwynebau cyfarwydd y fro i ymuno gyda'r aelodau ar y llwyfan.

Bydd cyfle i bawb rhwng 7 a 16 oed sydd â diddordeb mewn drama, cerddoriaeth, dawns, fideo ac aml-gyfrwng, coluro, sgriptio, ac wrth gwsr dangos ei hun, gymryd rhan yn y sioe! Mae 'na amrywiaeth o ddsbarthiadau yn cael

eu cynnal yn Llanrug, Llanberis a Deiniolen. Am fwy o fanylion cysylltwch ag Audra Roberts ar 01286 675766 neu ar audra.r@virgin.net.

Rydym hefyd yn chwilio am oedolion sy'n fodlon gwirfoddoli tu cefn i'r llwyfan a derbyn hyfforddiant gan arbenigwyr proffesiynol. Felly os oes gennych ddiddordeb mewn gwisgoedd, goleuo, sain, fideo, coluro, rheoli llwyfan, rhwch ganiad i Audra ar y rhif uchod. Gallwch ennill profiad gwerthfawr a bod yn rhan o weithgaredd cymunedol cyffrous.

Un funud fach

DIOLCHGARWCH

Meddwl dweud rhywbeth wrthyh am yr Ŵyl Ddiolchgarwch oeddwn i gan fod mis Hydref wedi cyrraedd. Felly dyma fwrw golwg dros yr hyn a gafwyd yn y golofn hon o'r blaen er mwyn sicrhau nad yr un stori a gewch chi gennyf o un Diolchgarwch i'r llall.

Be ddeudis i am yr Ŵyl y llynadd tybad? Dim byd. Dim byd y flwyddyn cynt chwaith. Tipyn o syndod oedd sylweddoli nad wyf wedi dweud yr un gair wrthyh am y Diolchgarwch ers chwe blynedd. A minnau mor siŵr fy mod yn gwneud hynny bob blwyddyn!

Mor hawdd yw meddwl ein bod wedi gwneud rhai pethau, â ninnau heb eu gwneud o gwbl. Yn aml iawn wrth gwsr, does dim angen poeni am y pethau hynny. Ddown ni byth i ben â phoeni am bethau nad ydym wedi eu gwneud. Does gen inna ddim bwriad i deimlo'n euog am anghofio crybwyll y Diolchgarwch cyhyd.

Ond ar brydiau mae'r pethau nad ydym yn eu gwneud cyn bwysiced â'r pethau a wnawn. Mae hynny'n arbennig o wir am berthynas pobl â Duw. Am na fedrant weld eu bod wedi gwneud rhyw ddrwg mawr mae llawer o bobl yn ddigon hapus ynglŷn â'r berthynas honno.

Mae nhw'n credu bod popeth yn iawn am nad ydyn nhw wedi cyflawni yr un pechod mawr amlwg.

Ond yn aml iawn y pethau nad ydym wedi eu gwneud sy'n dangos y gwir am ein perthynas ni â Duw. Mae'n bosibl nad ydym wedi lladd na lladrata na godinebu na chablu. Ond ydan ni wedi caru Duw â'n holl galon? Ydan ni wedi caru pobl eraill fel ni ein hunain? Ydan ni bob amser yn defnyddio'r doniau a roddodd Duw i ni yn y ffordd orau? Ydan ni'n dal ar bob cyfle i amddiffyn y gwan a'r tlawd?

Mae peidio diolch, peidio caru, peidio helpu, peidio gwrando, peidio gweddio, a pheidio maddau yn bechodau ynddynt eu hunain. Mae nhw'n gymaint o bechodau yng ngolwg Duw â'r pethau drwg yr ydym yn eu gwneud. Mae angen cofio hynny, ac mae angen diolch i Dduw am faddau'r holl bethau na wnaethom yn ogystal â'r pethau a wnaethom.

A be ddyweda i am y Diolchgarwch hefyd?

JOHN PRITCHARD

RHIFAU CEIR AR WERTH

DIOGYN

DIOFAL

01286 674839

Gwesty Dolbadarn

LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser Aneuryn Jones a'r staff

CAB GWYNEDD & DE YNYS MÔN

Bangor • Caernarfon • Dolgellau • Pwllheli

Rydym angen

GWIRFODDOLWYR

Ydych chi'n ddibynadwy ac yn gallu rhoi chwe awr o'ch amser bob wythnos? Nid oes angen profiad na sgiliau arbennig, cewch hyfforddiant llawn.

Am fwy o wybodaeth, ffoniwch:

(01286) 677013

cyngor
ar
bopeth

H. E. HUGHES A'I FEIBION

Bwthyn Gadlys
LLANBERIS

FFôn: 870444



- Gwerthwyr Glo ac
- Olew Gwres Canolog i'ch cadw'n gynnes ac yn glyd!

Y Sgwâr Llanrug

Crefftwyr gwaith llaw traddodiadol Cerrig o bob math ar gael –

Ffôn: (01286)
672898 (dydd)
676285 (nos)

+

J.M.
JONES
A'I FEIBION
GWAITH
CERRIG
BEDDAU

CHWILOTA

Sioe Flynyddol Llanrug



Yn ddiweddar cefais fenthyg rhaglen y *Llanrug Annual Show* am y flwyddyn 1902. Wn i ddim am sawl blwyddyn y cynhaliwyd hi cyn nac wedi hyn, ond mae'n amlwg fod â wnelo'r sioe â chyfnod Stewart Barnard fel perchennog Castell Bryn Bras, oherwydd ar dir y castell y cynhaliwyd y sioe. Mae'n gwestiwn gen i a fyddai unrhyw un o bentrefi'r fro yn medru cynnal sioe mor fawr â hon heddiw. Yn wir, rwy'n siŵr y byddai pwyllgor Sioe Gogledd Cymru yn reit eiddgeddus o'r nifer o bobl a weithiai tuag at ei llwyddiant, a'r nifer o gategoriâu o gystadleuthau oedd ar gael.

I gynnal sioe o'r fath roedd angen noddwyr, ac y mae'r rhain yn cael eu henwi ar dudalen flaen y rhaglen. Stewart Barnard oedd y llywydd, gyda'r Dr W. O. Lloyd Williams o Lanberis yn is-lywydd. Noddwyr eraill oedd Syr Hugh Rowlands, Plastirion, J. E. Greaves, Glangwna, W. W. Vivian, Mrs Ward (Pwy oedd hi tybed?), Ernest Neele, Edgar Watkin, John Menzies, John O. Hughes a D. C. Pritchard. Roedd deugain o aelodau i'r pwyllgor gwaith (mwy nag a geir yn y gynulleidfa i ambell ddigwyddiad heddiw!). Y cadeirydd oedd John Hughes, Plastirion, gyda Hugh Jones, Cae Poeth yn drysorydd a G. T. Griffith, Ddôl Helyg yn ysgrifennydd. Enwir pedwar neu fwy o stiwardiaid ar gyfer pob dosbarth o gystadlu - ceffylau, gwartheg, cŵn, dofednod a chynnyrch gardd - ac yr oedd angen wyth o feirniaid gwahanol i ddidoli'r holl gystadleuthau. Yn wir, roedd beirniad adran y cŵn a'r dofednod yn teithio i Lanrug yr holl ffordd o Wimbledon!

Ceir llond tair tudalen o reolau cystadlu, y mwyafrif ohonynt yn ymwneud â dosbarth y cŵn, yn seiliedig ar reolau'r Kennel Club flwyddyn ynghynt.

Rocdd saith o ddosbarthiadau yn adran y ceffylau, gyda phump ar hugain o gystadleuwyr, ac ambell un yn teithio o'r tu allan i'r ardal. Barometer gwerth dwy gini oedd y wobwr fwyaf gwerthfawr yn yr adran hon.

Cyfyngwyd adran y gwartheg i ffermwyr lleol. Dwy adran a phymtheg o gystadlcuwyr. Pymtheg swllt oedd y wobwr gyntaf.

Roedd pymtheg o ddosbarthiadau yn adran y cŵn, yn amrywio o gŵn defaid a dacargwn i gŵn hela. Deuai'r cystadleuwyr o bedwar ban: Blaenau Ffestiniog a Bctws y Gocd, Bangor a'r Gaerwen, Cricieth a Phorthmadog. Deuai un cystadlcuydd o Lanfrothen ag uwau crand iawn ar ei chwn: Don Crystal Masher, Canute Wonder a Spartho Blue

Bell. Ond efallai mai rhyw ddacargi bach o'r enw Jack aeth â'r wobwr yn y diwedd.

Yn adran y dofednod, pymtheg eto o ddosbarthiadau, a nifer helaeth o gystadleuwyr; y mwyafrif ohonynt yn lleol. Roedd chwech o ddosbarthiadau yn adran y colomennod, gyda'r Brodyr Rudd o Norwich yn cystadlu ym mhob dosbarth. Gan mai pum swllt oedd y wobwr gyntaf ym mhob dosbarth, mae'n syndod pam fod y rhain yn fodlon teithio'r holl ffordd i Lanrug, ond rwy'n amau mai cwmni masnachol oedd y rhain, a'u bod yn dod yma i arddangos gyda'r gobaith o ennill busnes gan y colomenwyr lleol.

Roedd dwy gystadleuaeth arddangos wyau - hanner dwsin o rai gwyn a hanner dwsin o rai melyn, gyda hanner coron o wobwr. Hanner coron oedd y wobwr hefyd am y gath orau a'r gwnigen orau yn y sioe.

Adran y cynnyrch gardd mae'n amlwg oedd yr un fwyaf poblogaidd, gyda hanner cant o ddosbarthiadau, yn cynnwys planhigion, blodau, llysiau, ffrwythau, menynd a bara ceirch. Mae'n amlwg fod rhai o'r cystadleuwyr yn arbenigwyr (neu'n obeithiol y tu hwnt). Roedd Maggie Griffith, Parciau Gleision, Cwm y Glo yn cynnig dair gwaith ar dusw o flodau gwyllt, a John Roberts, Bryn Eryr yn anfon pedwar cynnig i gystadleuaeth y Fuchsia. Enw arall sy'n britho'r rhaglen yn yr adran hon yw Robert Griffith, Tai Disgwylfa, Llanrug. Roedd yn cystadlu ar bob dosbarth yn adran y blodau, a golygai hynny baratoi'r canlynol: tri math gwahanol o aster, tri math o stocks, pedwar math o dahlia, dau fath o farigold, pedwar math o pansies, dau fath o geranium, dau fath o fuchsia, dau fath o begonia, planhigyn mewn pot, coleus a chasgliad o blanhigion yn cynnwys chwech math gwahanol. Roedd hefyd yn cystadlu yn yr adran ffrwythau: chwech afal bwyta, chwech afal coginio, cyrens ac eirin mair. Roedd yr un mor gefnogol i adran y llysiau: deg o ffa, dau giwcymbyr, chwech o nionod

bach, pys, deuddeg o datws bach, deuddeg o datws crwn, casgliad o bedwar math o datws, riwbob a chasgliad o chwe math o lysiau. Ble tybed roedd y creadur yn cael y lle a'r amser i ofalu am yr holl gnwd?

Roedd tair ar ddeg o ferched yn cystadlu yn yr adran gwneud menynd, gyda gwobr o chwe swllt i'r orau. Yr hyn sy'n ddiddorol yw fod y gystadleuaeth yn nodi fod angen gwneud tri phwys o fenyn gan ddefnyddio'r 'hen ddull'. Oes rhywrai o'r darllenwyr yn gwybod beth yw ystyr hyn?

Ceir rhai hysbysebion yn y rhaglen hefyd, ac mae'n amlwg fod y rhain hefyd yn gymorth i dalu costau'r sioe.

Os oes unrhyw ddarllenydd â mwy o wybodaeth am rai o'r sioeau hyn yng nghastell Bryn Bras, neu am sioeau cyffelyb mewn pentrefi eraill, cysylltwch.

CLARKE'S MELOX.

BY ROYAL WARRANT TO HIS MAJESTY THE KING.

CLARKE'S MELOX PERFECTED FOOD FOR DOGS.

BY ROYAL WARRANT TO HIS MAJESTY THE KING.

THE PERFECTED FOOD FOR DOGS.

A Highly Concentrated Food, containing the GREATEST AMOUNT OF FLESH-FORMING CONSTITUENTS ever submitted for public favour.

DOGS EAT IT WITH AVIDITY,
And thrive upon it in a most marked manner.

Dr. JOHN GOODFELLOW, Ph.D., F.R.M.S., in his report says:—
"I have never met with a Dog Food which yielded on analysis such satisfactory results."

PRICE:—

1-lb. Bags	2-cwt. Bags	14-lbs. Bags	7-lbs. Bags	5-lbs. Bags	Each Bag is sealed.
2/6	10/-	2/6	1/4	1/-	

Carriage Paid on 4-cwt. quantities and upward.

Factory - LIMEHOUSE, LONDON, E.
SAMPLES FREE ON APPLICATION.

Hysbyseb bwyd cŵn o raglen Sioe Flynyddol Llanrug 1902.

Treth Tlodion Llanberis 1766

Gan Mrs Shirley Griffith, Caerfyrddin (Llanberis gynt) y cefais gopi o'r dreth uchod, yn rhestru ffermydd y plwyf a'u tenantiaid, a'r dreth oedd angen ei thalu ganddynt tuag at gynnal tlodion y plwyf. Arwyddwyd y rhestr gan y ddau warden eglwysig, William Griffith, Cwmbrwynog a John David, Penllwyn (Penllyn, mae'n debyg). Roedd gwerth y plwyf bryd hynny yn £240, gyda Foulk Jones, Tŷ Du yn talu £30 a Morris Dafydd, Llwynbedw yn talu £16. Credaf fod y rhestr llawn wedi ei chynnwys yn un o rifynnau cynnar yr 'Eco', gyda gwybodaeth amdani gan y diweddar Gwilym Roberts.

Cysylltiad Jefferson â'r fro

Mac Mrs Griffith hefyd yn sôn am gysylltiadau'r Wheldons â Llanberis, ac yn ail-godi'r hen sgwarnog honno ynglŷn â Thomas Jefferson. Fel y gwyddoch, mae plac wedi ei osod ger y 'landing' yn

Llanberis yn nodi mai o gyffiniau'r Wyddfa y deuai cyn-deidiau'r Arlywydd. Yn ei gofiant, mae Jefferson ei hun yn honni hynny, ond hyd yn hyn, does neb wedi medru profi pwy oedd y cyn-deidiau hyn, na ble'n union ger yr Wyddfa roeddent yn byw.

Croesawyd Mrs Griffith i Ganada yn 1957 gan Mrs Maggie Olwen Jones (Williams gynt), a honnai fod ei thad yn hannu o'r un cyff â Jefferson, ac mai Davies oedd enw gwreiddiol y teulu. Fferm Cwm Brwynog ar lethrau'r Wyddfa oedd y cartref.

Lôn yr Wyddfa - a'r Bing

Cwestiwn arall gan Mrs Griffith yw pryd y newidiwyd enw'r lôn hon i York Terrace? Ar ddechrau'r ganrif ddiwethaf, Lôn yr Wyddfa oedd yr enw lleol, ond am rhyw reswm datblygodd yn York Terrace. Oes rhywrai yn gwybod pryd yr adeiladwyd y tai yma, a pham rhoi'r fath enw iddynt?

Ac yn gysylltiedig â'r ardal hon, daeth ymateb i'r cais am wybodaeth am y Bing. Anita Butler (Williams gynt o Lanberis) o Lanfairfechan anfonodd wybodaeth am deulu Cornelius a Jane Thomas oedd yn byw yn un o fythynnod y Bing. Roedd ganddynt dri o feibion, Richard, William a Robert. Priododd Robert â Mary Jane Pritchard o Gapel Curig, ac fe'i hadnabyddid gan drigolion Llanberis fel Anti Bing. Bu hi farw tua deng mlynedd ar hugain yn ôl. Roedd William a Robert yn aelodau ffyddlon o Fand Llanberis.

Gobeithio y daw mwy o hanes ardal y Bing i sylw yn ystod y misoedd nesaf.

Teulu o Gwm y Glo

Daeth cais y mis hwn yr holl ffordd o Galiffornia. Mae gŵr yno yn chwilio hanes ei deulu sy'n hannu o ardal Cwm y Glo. Yn anffodus, prin iawn yw'r wybodaeth sydd ganddo amdanynt ac mae'r enwau, gan mwyaf, yn ddigon cyffredin. Oes rhywrai yn gwybod unrhyw beth am Mary Owen/s a briododd Owen Williams tua canol y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Roeddent yn byw yn y Gors Bach, Cwm y Glo. Dau o'u plant oedd David Williams (ganed tua 1855) a William Williams (ganed tua 1864). Efallai ei bod yn haws dod o hyd i wybodaeth am eu merch, Ruth (ganed tua 1875) Priododd ag Edward Green (ganed tua 1867), a bu farw yn 1949.

Os oes unrhyw un â gwybodaeth ychwanegol am unrhyw un o destunau'r mis hwn, neu ag ymholiad am wahanol agweddau o hanes y fro, cysylltwch â Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. (Ffôn: 01286 673515).

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt. Ffôn: 870740

Camera yn ngofal John Pritchard, Cilfynydd, Llanberis. Ffôn: 872390

PEN-BLWYDD HAPUS iawn yn 100 oed i Mrs Ethel Williams, Kenya. Cafodd ei geni ym Manceinion ac yna symud i fyw gyda'i nain ym Mhant Du, Llanberis. Yn ddwy ar bymtheg oed symudodd ei rhieni i Kenya i fyw a bu'n rhaid i'r ferch eu dilyn. Ymgartrefodd yno a phriodi. Mewn amser colodd ei gŵr yn Kenya a dychwelodd i Gymru.

Tua hanner can mlynedd yn ôl ail-briododd ag R.J. Williams a fu'n rheolwr rheilffordd yr Wyddfa. Mae'n rhaid fod hir oes yn nodwedd o'r merched yn y teulu gan i'w mam, Mrs Stubbs, fyw hyd nes oedd yn 103 oed.

DYMUNA Mrs Ethel Williams, Kenya, ddiolch i'w ffrindiau, cymdogion a pherthnasau am eu caredigrwydd tuag ati ar achlysur ei phen-blwydd yn 100 oed ar 20 Medi, 2003.

DYMUNA teulu y diweddar Len O. Pritchard, 6 Dolafon, Cwm-y-glo ddiolch o galon i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am y cydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth. Hefyd am y cardiau, galwadau ffôn ac am y rhoddion tuag at Feddygfa Llanberis.

Diolch arbennig i'r holl staff nyrsio yn wardiau Tryfan ac Aran, Ysbyty Gwynedd am eu gofal a'u caredigrwydd. Hefyd i'r Parchedig Gwynfor Williams am ei wasanaeth ddiwrnod yr angladd ac i Gwynfor Jones o E.W. Pritchard am ei drefniadau parchus a thrylwyr.

LLONGYFARCHIADAU i Caryl, Carlinig, Ffordd Tŷ Du ar ennill graddau uchel iawn mewn tair arholiad lefel A. Mae Caryl wedi cael ei derbyn i'r Brifysgol ym Mangor i astudio Seicoleg.

Llongyfarchiadau hefyd i'w brawd, Iwan, ar lwyddo gyda anrhydedd yn ei arholiad piano gradd 4.

Da iawn chi, a phob lwc i'r dyfodol gan Mam a Dad. DYMUNA Margaret Rose Prydderch Roberts, Bronallt, Olgra Terrace ddiolch i'w teulu, ffrindiau, cymdogion a chydweithwyr am y cardiau, anrhegion a galwadau ffôn a gafodd tra'n cael llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

DYMUNA Idwal a Gwyneth Lloyd Roberts, Merddyn Coch ddiolch

yn fawr iawn i'r teulu, cymdogion a ffrindiau am eu caredigrwydd ac am yr holl gardiau, rhoddion a dymuniadau da tra bu Idwal yn yr ysbyty yn ddiweddar, ac ar ôl dod adref.

HOFFAI Hugh Morris, 9 Rhes Fictoria ddiolch yn fawr i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am y galwadau ffôn a'r ymweliadau tra bu yn yr ysbyty ac wedyn gartref.

UNDEB Y MAMAU. Ar ôl encil yr haf ailgychwynwyd y cyfarfodydd misol yn festri Eglwys Sant Padarn bnawn dydd Mawrth, 2 Medi.

Cafwyd gwasanaeth o'r Cymun Bendigaidd dan ofalaeth y Barchedig Vittoria Hancock yng Nghapel Mair.

Yn dilyn y gwasanaeth trafodwyd materion oedd wedi dod i law yn ystod yr encil. Penderfynwyd mynd am bryd o fwyd i Bortmeirion dydd Mawrth, 9 Medi.

Estynnwyd cydymdeimlad llwyr â theulu y diweddar Arfon Phillips fu farw yn ddiweddar.

Llongyfarchwyd plant yr ardal ar eu llwyddiant mewn gwahanol arholiadau ac hefyd Elin Mai Jones ar ei llwyddiant yn yr Eisteddfod. Gwnaed y diolchiadau gan Mrs Gwen Williams a Miss Glenys Parry yn eilio i Mrs Betty Humphreys am y lluniaueth ysgafn. Gwen oedd enillydd y raffl.

Diweddwyr drwy adrodd y Gras. DYMUNA Eryl ddiolch i gymdogion a theulu a ffrindiau ei mam, Katie Griffiths, 23 Maes Padarn am eu caredigrwydd yn dilyn y ddamwain a gafodd ei mam yn ddiweddar.

LLEISIAU LLIWEDD. Cafwyd Cyngerdd llwyddiannus iawn yn ysgol Cwm-y-glo ym mis Gorffennaf – diolch yn fawr am y croeso. Buom hefyd yn canu yng Ngwesty Fictoria fisoedd Gorffennaf ac Awst a rhoddwyd rhodd o £50 i Helen Richardson, un o ferched y Côr am redeg ras yn y Rhyl at Gancr y Fron ac hefyd rhodd o £50 i Apêl Hafan Gobaith S4C; Rhodd at Frigad Dàn Llanberis a Gavin Carr £50 ac ym mis Medi rhoddwyd £20 at Eglwys Nant Peris a blodau i Ffair Nant. £50 at Gronfa rhedeg Alun Fôn sydd yn rhedeg dros Gymru yn Alaska.

DYMUNA Mrs Hannah Jones, Tawel Lan, 2 Ffordd Padarn ddiolch yn fawr i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am yr anrhegion, blodau a'r galwadau ffôn a gafodd ar achlysur ei phen-blwydd yn 80 oed yn ddiweddar. Diolch yn fawr.



Miss Morfudd Williams yn dathlu ei phen-blwydd yn 100 oed

Ganwyd Miss Morfudd Williams yn Nhal y Bont ger Bangor ar 23 Awst, 1903 a symudodd y teulu i Lanberis pan oedd oddeutu 3 oed. Bu'n ddisgybl yn Ysgol Dolbadarn ac yn aelod yng Nghapel Gorffwysfa.

Gwelodd lawer tro ar fyd yn y pentref ac mae ei hatgofion gydol blynyddoedd lawer ei hoes yn eithriadol glir, cyfoethog a diddorol. Erys ei meddwl yn chwim a chyfoesol a da yw ei gweld yn troedio Ffordd Capel Coch yn ddyddiol.

Er iddi dreulio blynyddoedd yn ardal Hen Golwyn, dod yn ôl i Lanberis fu ei hanes a chartrefu gyda'i diweddar chwaer. Symudodd i fyw i Fron y Graig rhyw saith mlynedd yn ôl, lle cafodd gartref ac aelwyd, gofal a chariad arbennig. Bendithiwyd hi â iechyd hynod o dda gydol ei hoes a rhoddwyd Diolch i Dduw am hynny ar ddechrau cinio y dathlu, a gynhaliwyd yng Ngwesty'r Fictoria ddiwrnod ei phen-blwydd pan ddaeth nifer o'i theulu, ffrindiau a chyfoedion ynghyd. Roedd y dathlu yn arbennig o dda a chfwyd pnawn i'w gofio.

Darllenodd y Parch Gwynfor Williams neges y Frenhines a soniodd yn bwrsol iawn am y fraint o fod yn gymydog agos i'r teulu ac yn gyd-aelod yng Nghapel Gorffwysfa. Lluniwyd penillion ar gyfer yr achlysur gan Dianne, cyn-gymydog iddi yn Stryd Newton. Yn ystod y cinio ac wedyn cafwyd datganiad ar y delyn gan y delynores Gwennan Gibbard, Pwllheli – hithau hefyd darodd y tant i'r cwmni ganu Pen-Blwydd Hapus (yn egniol!) Roedd yr ystafell wedi ei haddurno'n dlws a hyfryd oedd gweld yr holl gardiau yn cael eu harddangos. Y Deisen (o gread Elsa, wedi'i haddurno'n gain gan Rhian, Swigr a Sbeis) wel, yn brydferth i'r llygaid ac wrth fodd stumog pawb: Grêt.

Diolchwyd i gwmni'r Fictoria am y trefniadau gan Gwynfor.

DIOLCH O GALON am y cardiau, y dymuniadau da, y blodau,

anrhegion ac ymweliadau ym Mron y Graig, ac i bawb a wnaeth 23 Awst 2003 mor arbennig. Yn bennaf, Diolch i Dduw am fy oes a'i ofal drosof. Morfudd Williams. HOFFWN ddiolch am y cardiau, galwadau ffôn a phob arwydd o longyfarchiadau a gefais ar ennill Ysgoloriaeth W. Towyn Roberts ac Ysgoloriaeth Violet Mary Lewis yn Eisteddfod Genedlaethol Maldwyn a'r Gororau. Mae'n rhoi ysbrydoliaeth gweld rhai yn cymryd diddordeb. Gobeithio y câf innau rhyw ddydd helpu eraill. Diolch. Mari Wyn Lewis B.Mus. DYMUNA John a Dilys a theulu'r diweddar Arfon Phillips, 9 Coed y Glyn ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu colled sydyn.

Diolch am y llu cardiau, ymweliadau a rhoddion hael o £985 tuag at Sefydliad Prydeinig y Galon. Diolch i'r Parch Vittoria Hancock, Mr Derek Jones a Mr Garth Jones ac i'r Parch Phillip Hughes am ei eiriau caredig. Diolch hefyd i Mr Gwynfor Jones o E.W. Pritchard, Llanberis am y trefniadau trylwyr.



LLONGYFARCHIADAU i Menai Jarvis, 25 Dôl Elidir ar ennill Tystysgrif Genedlaethol Uwch mewn Rheolaeth Salon. Pob dymuniad da iti yn dy swydd newydd yng Ngholeg Menai.

Cefnogwch
ein
Hysbysebwyd

Gosodwr Teils

Arbenigwr mewn walliau a lloriau

Gwaith bach neu fawr
Gwaith da bob amser

Ffoniwch Lloyd ar

01286 830 805



R.M. (DIC) PARRY

PEINTIWR AC ADDURNWR

PRISIAU RHESYMOL

TAWELFA, PENISARWAUN

Ffôn: (01286) 870846

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: (01286) 679501 (gwaith), 677438 (cartref)

TYNFA MISOL. Enillwyr Tynfa Misol mis Awst, Cymdeithas Cae Chwarae Caeathro oedd:

£40: (32) Mrs D. Moore, Eryl; £25: (102) Llio Jones, Glanrafon Bach; £15: (38) John ac Anwen Pritchard, Ty'n Gors Newydd; £5: (21) Arwel Evans, 8 Tai Glangwna.

PENCAMPWRIAETH RHEDEG MYNYDDOEDD Y BYD. Bu Jayne Lloyd yn cystadlu yn y pencampwriaethau eleni yn Alaska fel aelod o dîm Cymru. CYNGOR CYMUNED.

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Cyngor yng Nghanolfan y Capel (am y tro cyntaf) ar nos Fawrth, 16 Medi. Roedd y Cyngorwyr Vera Roberts a Clive James yn bresennol. Oherwydd dim ateb gan yr Heddlu ynglŷn ag oedi'r traffig trwy'r pentref penderfynwyd cwyno yn uniongyrchol i Bennaeth yr Heddlu, Rhanbarth y Gorllewin. Ac oherwydd dim ymateb am o leiaf 6 mis gan adrannau'r Cyngor, penderfynwyd cronico'r hanes a chysylltu â Phrif Weithredwr Cyngor Gwynedd.

Mae Cyngor Gwynedd wedi rhoi caniatâd cynllunio am stablau yng Nghefn y Gof.

Bydd y Cyngor yn casglu enwau'r llwybrau cyhoeddus er mwyn eu cadw ar gof a'u defnyddio hefo'r rhifau 'newydd'.

Bydd y cyfarfod nesaf ar 22 Hydref yn ystyried grantiau i fudiadau gwirfoddol.

CYFARFOD BLYNYDDOL: Bydd Cyfarfod blynyddol Cymdeithas Cae Chwarae Caeathro am 8 o'r gloch, nos Lun, 20 Hydref yn y Lolfa, Tafarn Bryngwna. Croeso i bawb.

AGORIAD SWYDDOGOL. Bydd seremoni i agor yn swyddogol Ganolfan y Capel yn yr adeilad am 2 o'r gloch, dydd Sul, 19 Hydref. Ar ôl yr agoriad bydd cyfle i gymdeithasu dros luniaeth ysgafn. Croeso i bawb.

CANOLFAN Y CAPEL. Yn dilyn yr agoriad, bydd Canolfan y Capel yn agored bob bore Mawrth rhwng 10 a 12 o'r gloch o 21 Hydref ymlaen, a phob prynhawn lau rhwng 2 a 4 o'r gloch o 23 Hydref ymlaen. Yn ogystal ceir cyfle i sgwrsio dros baned. Bydd cyfle i weld teledu neu fideo neu chwarae pŵl.

GWASANAETHAU'R CAPEL.

Bydd y gwasanaethau canlynol yn ystod mis Hydref.

5: 10.00 Diolchgarwch (gyda phaned wedyn)
12: 11.00 Ysgol Sul
19: 11.00 Ysgol Sul
2.00 Parch Gareth Maelor

26: Dim gwasanaethau.

PEN-BLWYDD MAWR.

Dathlodd Mrs Mary Albert Jones ei phen-blwydd yn 92 oed yn ddiweddar. Hoffai ddiolch i'w ffrindiau a'i chymdeigion am y lluo o gardiau, llythyrau ac anrhegion a dderbyniodd. Diolch hefyd i bawb a alwodd i fewn i'w gweld ar y diwrnod arbennig yma.

DEINIOLEN

Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cynfi. Ffôn: (870394)

Y. GYMDEITHAS LENYDDOL UNDEBOL. Cynhelir y cyfarfod agoriadol yn Nhŷ Elidir am 7 o'r gloch nos Lun, 27 Hydref. Cawn ein diddori gan aelodau ifanc y Seindorf y noson honno a threfnwyd nosweithiau difyr ar gyfer y misoedd canlynol. Unwaith y mis y byddwn yn cyfarfod a phris aelodaeth am y flwyddyn gyfan yw £3. Estynnir croeso cynnes iawn i bawb. Mae'r Gymdeithas yn teilyngu eich cefnogaeth a'ch brwdfrydedd. Dewch yn llun!

CYMDEITHAS UNDEBOL Y CHWIORYDD. Cynhelir cyfarfod cyntaf y tymor yn Ebeneser am 2 o'r gloch bawn lau, 2 Hydref. Ein gŵr gwadd fydd ein gweinidog, y Parch John Pritchard. Croeso cynnes i bawb.

LLONGYFARCHIADAU mawr i Iwan Williams, Hafle, Rhes Faenol a Lorraine Baillie, Scone, Perth ar eu priodas yn Eglwys Kinclaven, Yr Alban ar 26 Gorffennaf 2003. Cymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan Mr Emlyn Williams a Band Pres Y.B.S. Mae'r cwpl yn byw yn Worsley, ger Manceinion.

DIOLCH. Hoffai Iwan a Lorraine ddiolch i bawb am y cardiau, arian a'r anrhegion gwerthfawr a dderbyniwyd ganddynt ar achlysur eu priodas. Roedd yn ddiwrnod arbennig ac fe fu i bawb fwynhau eu hunain yn fawr iawn. Diolch i chwi i gyd.

CREFFTAU. Ail-ddechreuir dosbarthiadau crefft yn Nhŷ Elidir nos Fawrth, 14 Hydref gyda Pat, Cae Coch, Brynrefail. Os oes gennych ddiddordeb, ac a am gael mwy o fanylion, cysylltwch â Valmai ar 871174.

DIOLCH. Dymuna Clifford a David Hughes a'u teuluoedd ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt ar achlysur colli Mam, Nain a hen Nain arbennig ac annwyl iawn, sef Mrs Nellie Hughes, 4 Tai Gwyrfa, Clwt-y-bont.

Diolch hefyd am yr ymweliadau, cardiau a'r galwadau ffôn a dderbyniwyd. Diolch i'r Parch John Pritchard am y gwasanaeth a'i deyrnged yn y tŷ a'r fynwent. Diolch i Mr Gwyn Jones a Gwilym Jones a'i Fab, Caernarfon am y trefniadau gofalus ac urddasol.

Diolch hefyd i staff ysbytai Bryn Seiont ac Eryri, Caernarfon am y gofal arbennig a ddangoswyd at Mrs Hughes tra roedd yn yr ysbytai.

EISTEDDFOD GADEIRIOL GWAUN GYNFI. Cynhelir yr Eisteddfod yn Ffestri Ebeneser am 1 o'r gloch y prawn a 6 o'r gloch yr hwyr dydd Sadwrn, 25 Hydref eleni.

Croeso cynnes i bawb. Dewch i

gefnogi'r Eisteddfod.

MERCHED Y WAWR. Cafwyd agoriad campus i'r tymor nos Lun, 15 Medi a nifer dda yn bresennol yn Nhŷ Elidir. Parti Siân Gibson oedd yn ein diddannu a chawsom eitemau gwahanol gan Elin, Elaine a Sara. I gyfeiliant medrus eu cyfeilydd clywsom ganu o sioeau roc, ganu penillion, deuaudau a thriawdau. Diolchwyd iddynt yn gynnes gan y llywydd, Buddug Jones, a chan aelod arall, sef Buddug Jones, Rhosbodrual.

Byddwn yn cael ein Swper Diolchgarwch nos Wener, 17 Hydref ym Mwyty Seiont, Pontrug. Y DIOLCHGARWCH. Cynhelir cyfarfod Diolchgarwch Cefnywaun nos Sul, 12 Hydref (sef yr ail Sul yn Hydref) am 5 o'r gloch yn y Ffestri. Bydd nifer o'r aelodau yn cymryd rhan. Croeso cynnes i bawb.

Y nos Sul canlynol, 19 Hydref, ceir Pregeth Ddiolchgarwch gan ein gweinidog, Y Parch John Pritchard.

Croeso cynnes i bawb.

DIOLCH. Dymuna Mrs Jennie Roberts, 96 Pentre Helen ddiolch am bob arwydd o garedigrwydd a ddangoswyd tuag ati tra bu yn yr ysbyty yn gynharach yn y flwyddyn, a hefyd ar ôl iddi ddychwelyd i'w chartref.

Diolch hefyd am bob arwydd o gydymdeimlad a gafodd ar achlysur colli ei chwaer, Mrs Nellie Hughes, 4 Tai Gwyrfa, Clwt-y-bont. DYMUNA Elan Williams ddiolch yn fawr iawn i holl staff, plant a ffrindiau Ysgol Gwaun Gynfi am yr anrhegion a'r cardiau a gafodd ar ei hymddeoliad fel cogyddes, a phob lwc i Anwen yn y swydd.

YSGOL GWAUN GYNFI

Croeso'n ôl. Ar 2 Medi croesawyd 166 o blant i'r ysgol. Mae 30 o blant yn y dosbarth Meithrin eleni ac maent wedi setlo'n iawn erbyn hyn.

Hefyd, croeso'n ôl i Mrs Eirlys Parry, ein gofawraig, ar ôl bod i ffrwd oherwydd salwch, a diolch yn fawr i Mrs Sue Jones am ei gwasanaeth arbennig yn ystod ei habsenoldeb.

Ymdeoliad. Dymunwn ymdeoliad hapus iawn i Mrs Elan Williams (Anti Elan) ein cogyddes a diolch yn fawr iawn am eich gwasanaeth. Mrs Anwen Jones fydd ein cogyddes newydd gyda Mrs Carys Murphy yn ei chynorthwyo. Pob lwc iddynt yn eu swyddi newydd.

Celtica. Ymwelodd plant Cyfnod Allweddol 2 â chanolfan Celtica ym Machynlleth dydd lau, 11 Medi. Yma gwelwyd arddangosfa o fywyd Celtaidd 2000 o flynyddoedd yn ôl.

Cyfarfod Blynyddol y Llywodraethwyr. Cynhelir y cyfarfod yma nos Lun, 6 Hydref am

6.30 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb.

Diwrnod HMS. Bydd yr ysgol ar gau dydd Gwener, 3 Hydref.

Hanner Tymor. Bydd yr ysgol yn cau dydd Gwener, 24 Hydref ac yn ailagor 3 Tachwedd.

Casglu Tocynnau. Diolch yn fawr i bawb a gasglodd docynnau Tesco. Casglwyd 9279 eleni a fydd yn mynd tuag at gyfrifiadur newydd i'r ysgol - bydd angen tua 1500 eto. Diolch yn fawr iawn i bawb a daliwch ati.

Ffair Lyfrau. Cynhelir ffair lyfrau Scholastic (llyfrau Saesneg) yn neuadd yr ysgol yn ystod wythnos 13-17 Hydref. Bydd cyfle i unrhyw un brynu'r llyfrau yn ystod yr wythnos. Croeso cynnes i bawb.

Gwellhâd Buan. Dyna a ddymunwn i Mrs Mari Ellis ar ôl llawdriniaeth yn yr ysbyty ac edrychwn ymlaen i'w gweld yn ôl yn yr ysgol.

Cyfeiriannu. Bu Ms Trys Morris yn yr ysgol ar 18 Medi i roi gwers cyfeiriannu o gwmpas yr ysgol i blant Dosbarth 5.

Enillwyr y Clwb Cant eleni oedd:

Ionawr: (78) Buddug Jones, 2 Rhoslan, Caernarfon; (65) Donna Jones, 1 Rhes Marian; (4) E. Clarke, Swyddfa'r Post.

Chwefror: (47) Eleri Efans, Ysgol Gwaun Gynfi; (54) Ieuan Parry, O'r Diwedd, Hafod, Clwt-y-bont; (71) Idris Wyn Parry, 6 Rhes Faenol.

Mawrth: (16) Karen Williams, 2 Hafod Olau; (85) Rhiannon Down, Ysgol Gwaun Gynfi; (36) Ronald Roberts, Rhyl.

Ebrill: (2) Mona Parry, 15 Hafod Olau; (16) Karen Williams, 2 Hafod Olau; (34) J.M. Jones, 1 Maes Gwylfa.

Mai: (33) Mrs M.C. Jones, Tan y Caerau; (22) Gwilym L.I. Williams, 9 Rhes Fictoria; (37) Beti Roberts, Rhyl.

Mehfin: (97) Myfi Peris Efans, Sŵn yr Awel; (113) Gloria Thomas, Rhydfadog.

Gorffennaf: (75) Margaret Jones, 10 Ffordd Deinol; (14) Len Jones, 11 Hafod Olau; (50) Clarice Roberts, Tan yr Henffordd.

YSGOL FEITHRIN. Cychwynnodd 8 o blant newydd yn yr Ysgol Feithrin mis Medi a gobeithio eu bod i gyd wedi ymgartrefu erbyn hyn.

Croesawn Mrs Sian Roberts o Lanberis, sydd wedi cychwyn fel Arweinydd newydd y Cylch a dymunwn yn dda iddi. Mae Mrs Glenys Jones yn parhau yn y Cylch fel Cymhorthydd.

Cynhelir Noson Tân Gwylt yn iard yr Ysgol Feithrin nos Fercher, 5 Tachwedd. Drysau'n agor am 6 o'r gloch ac i gychwyn am 6.30. Mynediad £1.50 i oedolion a £1 i blant, gyda mynediad am ddim i blant yr Ysgol Feithrin. Bydd yno amryw o stondinau fel stondin cŵn poeth, cacennau, afalau taffi, diodydd a melysion.

Fframia Gwasanaeth Fframio Lluniau

Arbenigwyr ar fframio gwaith edau a nodwydd

Nifer helaeth o luniau ar werth • Dewis eang yn cynnwys:

**IVOR STUBLEY • KEITH ANDREW
KEITH BOWEN • ROB PIERCY**

PARC PADARN, LLANBERIS (870922)

(Ar gau dydd Sul a dydd Llun yn ystod y gaeaf)

LLYSIAU, FFRWYTHAU, BWYDYDD
AC ANGHENION ANIFEILIAID ANWES

GARTH MAELOG

51 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: **870840**

LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

DIOLCH O GALON. Dymuna Haf Thomas, Buarthau ddiolch am yr holl ddymuniadau da, cardiau a galwadau ffôn a dderbyniodd yn dilyn y rhaglen deledu 'Diolch o Galon'. Diolch hefyd am yr arian a dderbyniodd a fydd yn mynd tuag at elusen y Nadolig yma – sef Cronfa Cŵn i'r Deillion.

Diolch o galon i chwi i gyd.

PLAID CYMRU

Daeth hanes yn fyw inni yn narlith yr hanesydd Bob Morris i Gangen Llanrug o Blaid Cymru nos Fercher, Medi 17. Gyda lluniau o Owain Glyndŵr, ei gartref yn Sycharth, a'r gwrthryfel yn erbyn Lloegr yn 1400, rhoddodd ddisgrifiad byw o'i fywyd fel uchelwr yn Sycharth ac o'i weledigaeth fel tywysog Cymru, yn cynnal senedd ym Machynlleth, ac yn dadlau dros ddwy brifysgol i Gymru, ac eglwys unedig dan y Pab yn Avignon. Roedd yn ffigwr amlwg yn ei gyfnod, nid yn unig yng Nghymru ond hefyd yn Lloegr ac ar y cyfandir, ac fe'i hanfarwolwyd gan Shakespeare yn un o'i ddramâu. Nid rhyfedd iddo ddod yn arwr i'r Cymry ac yn symbol o genedlaetholdeb Cymru.

Croesawvd aelodau o Lysgenhadaeth Glyndŵr i'r cyfarfod.

Bydd y cyfarfod nesaf am 7.30 Nos Fercher, Hydref 15, yn Sefydliad Coffa Llanrug, pan ddaw un o aelodau Plaid Cymru yn Ewrop i'n hannu'r pum aelod sydd gan Gynmru yn Senedd Ewrop, ac ar wahân i Eurig Wyn, daw'r cwbl o Dde Cymru. Mae'n holl bwysig felly bod Eurig ar ben rhestr y Blaid, neu ni fydd gan y Gogledd unrhyw lais yn Ewrop. Dowch i'w glywed yn sôn am ei waith.

Y noson ganlynol, nos Iau, 16 Hydref, bydd cyfle i aelodau bleidleisio drosto yn Ystafell Ddarlithio 4, Prif Adeilad y Celfyddydau, Prifysgol Cymru Bangor, am 7.30 o'r gloch

DYMUNA Mrs. Megan Pritchard 'Golygfa, Bryn-moelyn' a'r teulu oll, ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniodd ar ei phroffedigaeth sydyn o golli ei gŵr ffyddlon, Thomas Selwyn Pritchard. Diolch am y llythyrau, cardiau, galwadau ffôn a'r ymweliadau ac am y rhoddion hael tuag at ymohwil y galon. Diolch hefyd yn arbennig i'r Parhadig Dafydd Hughes am ei garedigrwydd mawr ac i Gwilym Jones a'i Fab (Gwyn) am y trefniadau trylwyr, a gofalus ac urddasol. Diolch yn fawr.

CÔR ERYRI

Mae hi wedi bod yn flwyddyn brysur a hynod lwyddiannus i Gôr Eryri. Yn ogystal â nifer o dyngedau, ym mis Mehefin 2002, enillwyd cystadleuaeth y Côr a'r Parti Gwerin yn Eisteddfod Gadeiriol Llanrwst. Yna ym mis Hydref, teithiodd y Côr i Borthmadog i gymryd rhan yn rhagbrofion cystadleuaeth Côr Cymru.

Erbyn mis Rhagfyr, cawsom wybod ein bod wedi ein dewis yn un o bedwar Côr merched yn y

rowndiau cynderfynol yn Aberystwyth. Mawr fu'r paratoi wedyn, a phawb yn mwynhau'r profiad cyffrous o fod yn rhan o gystadleuaeth ardderchog.

Yn ystod mis Mai eleni, cystadlu yn Eisteddfod Môn oedd ein hanes, a llwyddo i gipio'r wobr gyntaf, gyda Chôr Maelgwn yn ail a Chôr y Traeth yn drydydd.

Enillwyd Baton Arian gwerthfawr gan Sian Wheway ein harweinyddes, wedi iddi gael ei dewis gan y beirniaid, Dr Richard Elfyn Jones a Geraint Roberts, yn arweinydd gorau'r ŵyl.

Ond heb os, ychafbwynt y flwyddyn oedd cystadlu yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Meifod a llwyddo i gipio'r ail wobr mewn cystadleuaeth arbennig iawn. Diolch yn fawr i'r holl aelodau am eu hymroddiad diflino i'r ymarferion i gyd.

Yn ystod y flwyddyn, ail-etholwyd y swyddogion fel a ganlyn: Cadeirydd Mannon Williams, Ysgrifennydd; Menna Dauncey Williams, Trysorydd Manon Jones. Pob dymuniad da iddyn nhw yn eu gwaith eto eleni ac i aelodau eraill y pwyligor.

Ganwyd tair merch fach i Ffion, Jen ac Angharad, a mab bach i Delyth. Llongyfarchiadau mawr iddyn nhw – tair soprano arall i'r dyfodol!! Edrychwn ymian at groesawu Ffion a Jen yn ôl yn fuan.

Dymunwn yn dda i un neu ddwy o aelodau sydd wedi ein gadael eleni, ond rydym yn ffodus iawn o allu croesawu 5 newydd i'n plith, dwy yn dod o Langefnï atom!! Gobeithio y byddant yn mwynhau bod yn rhan o'r Côr am flynyddoedd i ddod. Croesawyd cyfeilyddes newydd atom hefyd, sef Helen Owen o Dregarth, yn dilyn ymadawiad Alwenna Lewis. Pob hwyl i Alwenna yn y dyfodol a diolch yn fawr i Helen am ei chyfraniad gwerthfawr tu hwnt.

Erbyn hyn mae'r Côr wedi penderfynu ar wisg newydd a rhaid diolch i Manon, Nia, Ruth, Julie ac Awen am dreulio diwrnod anodd iawn yn siopa am ddillad!!

Daeth y tymor i ben yn swyddogol ar nos Wener, 27 Mehefin gyda Helfa Drysor lwyddiannus iawn o amgylch yr ardal. Trefnwyd yr Helfa gan Dafydd Gibbard a Dafydd Roberts a chawsom helfa ardderchog i'r oedolion yn ogystal ag un arbennig ar gyfer y plant.

Enillwyd y gwobrau fel a ganlyn: Oedolion: 1af Tim Sassi (Nia Elain, Nia Grisdale a'u cyfeillion); 2il Teulu'r Gibbards; 3ydd Moniars (Manon Jones ac Anwen Edwards). Plant: 1af Mari ac Owain; 2il Tim Pizas; 3ydd Tim Graff Fach.

Llwyddwyd i godi £186 o bunnau tuag at gostau'r Côr a diolch yn fawr iawn i bawb a gefnogodd yr Helfa, i'r trefnwyr hynod o drefnus a phroffesiynol ac i'r holl fusnesau a roddodd wobrau penigamp i ni.

Cafwyd Taith Gerdded nodedig hynod o lwyddiannus ar ddiwedd mis Mai, a diolch i bawb

fu'n chwysu ar y daith, yn casglu ac yn ein noddi'n hael iawn. Codwyd £350 o bunnau.

Ar drothwy blwyddyn newydd i aelodau Côr Eryri felly, bydd ymarferion yn ailgychwyn o ddechrau Medi ymlaen, bob nos Iau am 8.00 o'r gloch.

Oherwydd y gwaith ymestyn sy'n digwydd yng Nghapel y Rhos, bydd yr ymarferion yn cael eu cynnal yn Festri Capel y Cysegr, Bethel am yr ychydig wynosau nesaf. Croeso mawr i aelodau newydd o unrhyw lais!

PROFEDIGAETHAU. Yn ystod tymor yr haf bu farw sawl un o'r pentref. Cydymdeimlwn yn arw â Mrs Megan Pritchard, Golygfa, Stad Bryn Moelyn. Bu farw Mr Selwyn Pritchard yn sydyn iawn ac anfonwn ein cydymdeimlad at Mrs Pritchard a'r teulu i gyd.

Mr Eddie Owen, Gwyndaf a Dafydd, Ffordd Glanmoelyn yn dilyn marwolaeth Mrs Ceri Owen ar ôl gwaeldd hir. Hefyd ei chworiwyd a'r teulu oll.

Bu farw Mrs Nancy Roberts, gweddw y Parch W.O. Roberts gynt, Manod, Ffordd Glanffynnon. Nid oedd yn dda ei hiechyd ers amser ond fe roedd wedi gallu byw gartref drwy garedigrwydd mawr ffriidiau y capel a gofawyr cartref.

Collodd Liz Roberts, London House ei brawd yn sydyn iawn tra roedd ar wyliau dramor. Estynnwn ein cydymdeimlad i'w mam a'r teulu i gyd.

Bu farw Mr Len Jones, Dolafon, Cwm-y-Glo ac fe estynnwn ein cydymdeimlad at ei chwaer, Sheila, a'i ddau frawd yn Llanrug.

Cydymdeimlwn â Mr Norman Jones, Ffordd yr Orsaf a'r teulu yn dilyn marwolaeth ei fam, Mrs E. Jones, 6 Bryntirion, Penisarwaun. **BRYSIWCH WELLA.** Mr Richard Jones (Dick) 8 Bryn Rhug, sy wedi cael llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar.

Mrs Grace Wyn Jones, 3 Cefn Elan, hithau wedi derbyn llawdriniaeth.

Mrs Joyce Jones, 7 Bryn Moelyn yn awr yn gwella yn dilyn llawdriniaeth.

Mrs Beti Roberts, Meifod, Ffordd yr Orsaf wedi cael llawdriniaeth.

Mr Glyn Williams, 36 Bro rhyddallt, da yw deall eich bod yn gwella.

Brysiwch wella i gyd, gan gynnwys unrhyw berson arall sy'n wael ond nad ydym yn ymwybodol ohono.

PRIODAS. Priodwyd Dilwyn Rogers a Nerys Powell yng Ngwesty Seiont Manor yn ddiweddar. Dymuniadau gorau i'r ddau ohonynt.

PRIODAS

RUDDDEM.

Llongyfarchiadau i Mary a Meurig Parry, Wnellys, Gwêl Fynydd ar achlysur eu Priodas Ruddem ar 5 Hydref. Pob bendith oddi wrth y teulu i gyd.

YR YSGOL GYNRADD.

CROESO. Mae'r tri deg saith plentyn bach a ddechreuodd eu gyrfa yn y Dosbarth Meithrin fis Medi wedi setlo yn hapus erbyn hyn ac yn brysur wrth eu gwaith bob bore.

DIOLCHIADAU.

DYMUNA Mrs Jean Walsh ddiolch o galon i'w pherthnasau a'i ffriidiau i gyd am y cardiau a'r anrhegion a gafodd ar achlysur ei phen-blwydd yn ddiweddar a hefyd y dymuniadau da a dderbyniodd yn ei chartref newydd yn 9 Hafan Elan. Roedd y diolchiadau i fod yn y rhifyn diwethaf, ymddiheuriadau am hyn. **DYMUNA** Eirwen Rowlands, Llys Forgan ddiolch i'r teulu, cymdogion a ffriidiau am y llu cardiau, anrhegion, blodau ac arian a gafodd ar achlysur ei phen-blwydd yn 70 oed. Diolcho galon i bawb.

DYMUNA Carole, Albert, Phillip ac Alex Lynes, Tŷ Newydd, Ffordd Glanffynnon ddiolch yn fawr am bob arwydd o gydymdeimlad, mewn galwadau, cardiau a rhoddion a dderbyniwyd yn dilyn marwolaeth tad Carole a thaid arbennig i'r plant, yn Ysbyty Gwynedd ar 29 Gorffennaf, yn 78 oed. Derbyniwyd £500 er cof amdano ac fe'i cyflwynwyd i Feddygfa Amlwch mewn gwerthfawrogiad o'r gofal a dderbyniodd yn ystod ei waeldd. **BABIS NEWYDD.**

I Ian a Dianne Hughes, 39 Nant y Glyn – mab bach, Andrew Joseph.

I Richard ac Eryl, Glanffynnon, – merch fach, chwaer i Alys.

I Daniel a Iola Non, 2 Ffordd Glanffynnon – merch fach, Elin Daniel.

PEN-BLWYDD.

Dymuniadau gorau i Allan Vincent Owen, Rhos Rug ar gyrraedd pen-blwydd arbennig. Tocyn bws yn werthfawr iawn! Pen-blwydd hapus.

DYMUNA Jennie C. Williams, Bod Fair ddiolch o waelod calon am y cyfeillgarwch a'r caredigrwydd ddaeth i'w rhan ar achlysur 'Pen-blwydd Arbennig' arbennig o ran yr oedran.

Cefais y cwmni, y dymuniadau twymgalon, yr anrhegion ac yn enwedig cyfeillgarwch. Diolch calon, rwy'n ddiolchgar o fod mewn cymdeithas mor gofodol, gan mai hogan ddwâd ydwyf fi.

(Parhad ar dudalen 12)



Ysgol Brynrefail

Llongyfarchiadau i Tomos Parry



Yn ystod y tymor diwethaf daeth Tomos i'r brig yng Nghystadleuaeth Mathemateg Cymru ar gyfer disgyblion blwyddyn 8. Tipyn o gamp. Da iawn ti.

Cystadleuaeth Cogydd Ifanc y Flwyddyn 2003



Eleni bu Ffion Jones yn llwyddiannus yn y gystadleuaeth uchod sy'n cael ei noddi gan Glwb Rotari Bangor ac yn rhoi cyfle i bobl ifanc ddatblygu eu sgiliau coginio.

Bu'n ffodus o gael ei dewis yn y rownd gyntaf ac yna acti i gynrychioli'r ysgol yng Ngholeg Menai. Cynlluniodd fwyden dri chwr a daeth ei chwr cyntaf i'r brig.

Gwobrwywyd Ffion gyda dwy fedal. Un am ei saig cwr cyntaf a'r llall am safonau hylendid a diogelwch. Da iawn chdi, Ffion.

Enillwyr cystadleuaeth golff 2003



Arwel Jones a Myrddin Owen, enillwyr cystadleuaeth golff 2003 Cymdeithas Golffwyr Cyn-ddisgyblion, Disgyblion ac Athrawon Ysgol Brynrefail. Cynhalizwyd y gystadleuaeth ar gwrs golff Caernarfon.

Cymdeiths Cyfeillion Ysgol Brynrefail Enillwyr y Clwb Cant

Gorffennaf 2003: £38.50: Mrs Jennifer Hughes, Aljen, Penisarwaun; £23.10: Ms Fiona Jones, Bryntirion, Bethel; £15.40: Mrs Carole Lynes, Tŷ Newydd, Llanrug.

Azwt: £38.50: Mrs Haf Roberts, Garn Brys, Llanrug; £23.10: Mrs Heather Tate, 3 Pool Street, Cwm y glo; £15.40: Mrs Lynda Jones, Bryn Eden, Llanrug.

Medi: £38.50: Mrs Eirian Jones, Llys Gwyn, Llanrug; £23.10: Mr a Mrs R.A. Wallis, Clogwyn, Gallt y Foel; £15.40: Mrs Margaret Williams, Bryn Cwm y glo.

Canlyniadau

Hoffai'r Prifathro estyn ei longyfarchiadau i'r holl ddisgyblion ac athrawon am y canlyniadau arholiadau allanol gorau erioed. Pob lwc i'r disgyblion i gyd at eu dyfodol.

Enillwyr Mabolgampau'r Ysgol



Yr holl enillwyr hefo Mr Eifion Jones, Mrs Rhian Ingram a Mr Phil Holland.



Victrix Ludorum: Rhiannon Jones, bl.10 - Elidir. Victor Ludorum: Dylan Eddy Bl.8 - Elidir a Gareth Jones, bl.10 - Eilian.

DRAENOG

Y diwrnod o'r blaen collodd un o aelodau staff yr Amgueddfa Lechi de dros ei bapur newydd a cheisiodd ei sychu yn y popty micro-don. Does dim angen dweud bod ganddo un papur newydd brown iawn, â golwg wedi gweld dyddiau gwell arno. Addas iawn i'r amgueddfa o bosibl. Ddyweda i ddim pw y oedd o, ond byddai enw'r sir lle cynhaliwyd yr Eisteddfod Genedlaethol eleni yn dipyn o glwi i chi. A gyda llaw, mae o'n gwadu llwyr iddo roi'r papur ar dân yn fwriadol am nad oedd ynddo stori am Glwb Pêl-droed Lerpwl.

Perfformio gyda Zoom!



Yn wythnos olaf tymor yr haf, bu 50 o ddisgyblion o'r adran gerdd yn lwcus iawn o gael y profiad o chwarae eu hofferynnau ochr yn ochr gyda'r 'London Concertante, grŵp offerynnol profiadol o Lundain. Eu henw oedd Zoom.

Danfonodd Zoom y darnau i ni gael eu hymarfer adref ychydig wythnosau yn gynharach, sef 'Swallows' a'r fferfryn 'Bessarabian Girl'.

Daeth gwefr i ni i gyd wrth i'r

darnau ddod yn fyw wrth i ni roi ein cyfraniad. Treuliodd Zoom fore cyfan yn ein hysbrydoli. Roedd eu steil o chwarae yn unigryw a thu hwnt o hwyliog, wrth iddynt gyfnewid eu hofferynnau tra'u bod yn dal i gadw'r gerddoriaeth i fynd. Mwynhaodd cerddorion Ysgol Brynrefail a Mrs Anwen Edwards, pennaeth yr adran gerdd, y cyfle arbennig hwn.

Karon Williams, 8N

Ein Prif Ddisgyblion Eleni



Geraint Iwan (Llanrug) a Cenin Eifion (Penisarwaun) gyda'u dirprwyon Eifion Williams (Llanrug), Gethin Pritchard (Llanberis) a Ffion Williams (Bethel).

Ty'n Llan Nant Peris

Cinio
dydd Sul
a
Byrbrydau



Bwydydd
Cymreig

Jim ac Anne Cumberton (01286) 870 284
Croeso cynnes bob amser

DRAENOG

Tywydd Poeth

Da chi'n cofio y tywydd braf, poeth yna? Ma un gŵr o Lanbêr yn sicr yn ei gofio. Wnaeth RAY MOND croesi lein Llyn Padarn o'r Amgueddfa i nôl hufen ia iddo fo a'i fets ar un o ddyddia poetha'r ha'. Pan ddychelodd at y groesfan hefo'i haffla'n llawn, sylweddolodd fod y giatiau wedi cau. Bu'n rhaid iddo aros am oes cyn i'r trêr basio ac erbyn hynny roedd yr hufen wedi toddi gan redeg i lawr ei freichiau. Pan gyrhaeddodd yn ôl doedd ganddo ddim ond 'cornets' gwag yn ei ddwylo. Ei ymateb wrth eu taflu i'r bin oedd, 'Mi gymrodd y trêr yna fwy o amser na ma' cerdyn POST yn ei gymryd i ddwâd o Sbaen!'

DODREFN PERKINS


(Safle'r hen Nelson)
CAERNARFON

Ffôn: (01286) 676 040

- Pob math o ddodrefn tŷ
- Cegin, 'stafell fyw, llofft
- Prisiau cystadleuol
- Danfon am ddim i holl ardal Bro'r Eco



Hywel Williams
Aelod Seneddol



Alun Ffred Jones
Aelod Cynulliad

Etholaeth Caernarfon

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'r A.S. neu'r A.C. mewn cymhorthfa, ffoniwch **01286 672076** i wneud apwyntiad

neu
ysgrifennwch atynt:
Swyddfa Etholaeth
8, Stryd y Castell, Caernarfon LL55 1SE

neu
e-bost: williamsgw@parliment.uk

Yr Wythnos Drawsgwricwlaidd

Unwaith eto cafodd holl ddisgyblion blynyddoedd 7, 8 a 9 hwyl wrth gael mynd allan o'r ysgol i wahanol weithgareddau.

Gweithgareddau Bl.7

Dringo yn Bluc Peris a dysgu gwersylla; cyfansoddi, gan ddefnyddio technoleg fodern mewn gweithdy Cerdd; Celf a Chymraeg yn mynd â'r plant i'r Amgueddfa Lechi yn Llanberis; un diwrnod yn llunio patrymau, sydd bellach yn cael eu harddangos ar wal ffreutur yr ysgol, a'r diwrnod arall yn profi bywyd a hanes y chwarelwyr. Yna treulio'r diwrnod olaf yn cerdded trwy goedwig Niwbwrch ac ar hyd glan y môr Llanddwyn a phawb yn mwynhau eu hunain yn fawr.

Gweithgareddau Bl. 8

Dyma beth oedd gan rai o ddisgyblion blwyddyn 8 i'w ddweud am eu hwythnos hwy.

Ar ddydd Iau mi wnaethom wneud mathemateg sef dilyn llwybr mathemateg i ateb cwestiynau fel faint o funiau sydd tu allan i'r ysgol. Hefyd gweld faint o geir sydd yn yr ysgol. Mi roedd ychydig yn hwyliog ond roedd hi'n BWRW GLAW, niwsans!

Ar ddydd Gwener mi aethom i weld Eglwys Sant Mihangel ac roedd yn drist gweld fy nheulu eto ond mi lwyddais i beidio crio. Roedd yn werth cael mynd yno. Yn y pŵawn aethom i gerdded i lawr i Crawia dros Benisarwaun a lawr i Londis i nôl rhywbeth i'w fwyta.

Lowri Mair Jones, 8E

Fy hoff ddiwrnod!

Fy hoff ddiwrnod oedd dydd Mercher. Dydd Mercher mi gawsom adeiladu Tetrahedron mawr yn y neuadd, allan o breniau a bandiau lastig. Ar ôl amser chwarae mi gawsom ni wneud poster o'r gwledydd sydd yn siarad Ffrangeg yn yr ystafell gyfrifiaduron efo Mrs Sam Jones. Ar ôl cinio mi wnaethom goginio toastie caws yn yr ystafell goginio cfo Mrs Rhian Ellis Owen.


Manon Jones, 8E

Ar ddydd Llun y 7fed o Orffennaf dechreuom yr wythnos Drawsgwricwlaidd. Roedd gweithgaredd gwahanol pob dydd ac yn rhai roeddem yn cael ein rhannu i ddau grŵp. Fy hoff weithgaredd oedd beicio. Ein dosbarth ni oedd y dosbarth cyntaf i fynd i feicio. Fe feiciom ni ar hyd Lôn Eifion, O Gaernarfon i Fryncir. Roedd dau athro/athrawes hefo ni, Mrs Ingram a Mr H Jones, a Mr Tomos (myfyriwr addysg gorfforol). Roedd y plant cyflymaf ar y blaen gyda Mrs Ingram a Mr Tomos yn dilyn, ond roedd Mr Jones yn y tu ôl yn rhywle hefo gweddill y plannu.

Ar y ffordd yna roedd hi'n anodd iawn gan fod y ffordd ar ychydig o allt ifyny, ond ar y ffordd yn ôl roedd i gyd i lawr



Y Cwmni Gyrfa yn rhoi ymwybyddiaeth busnes trwy gynhyrchu crysau-T.



Kirsty, 8i a Zoe Williams, 8s yn cyfansoddi ar y cyfrifiadur.



Keri, bl.8 yn mwynhau y coginio Ffrengig.

allt, ac roedd hi'n llawer haws i fynd yn gyflym. Roedd y daith i gyd yn 24 milltir gan fod y ffordd yna yn 12 milltir a daethom yn ôl yr un ffordd.

Gwenno Pritchard, 8E

Gweithgareddau Bl.9

Bu disgyblion blwyddyn 9 am daith Gymraeg o gwmpas lleoliadau â chysylltiadau llenyddol yr ardal. Cerdded mynyddoedd ac o, roedd rhai wedi blino'n lân! Cael gweithdy 'Rhyfel Robot' wedi ei drefnu gan yr adran Wyddoniaeth a diwrnod dan ofal Y Cwmni Gyrfa i gael blas ar waith! A'r diwrnod olaf roedd rhagarweiniad o'r cwrs Technoleg Gwybodaeth Galwedigaethol C.A.4.

Dyma oedd gan ddau i'w ddweud am yr wythnos:

Fy hoff ddiwrnod o'r wythnos Drawsgwricwlaidd oedd Gwyddoniaeth. Roeddwn yn hoffi'r diwrnod hwn oherwydd roeddwn yn cael adeiladu deinosaurs ac adeiladu modur i wneud i'r deinosaurs symud. Roedd yn hwyl oherwydd roeddem yn cael peintio ac yn rhoi'r deinosaurs gyda'i gilydd. Roedd y gêm Robot Wars ar y cyfrifiadur yn hwyl hefyd oherwydd roeddem yn cael adeiladu robot ar y cyfrifiadur.

Michelle Jones, 9O

Fy hoff ddiwrnod i o'r wythnos oedd y trip Cymraeg oherwydd roeddem yn cael mynd i Rosgadfan i weld tŷ Kate Roberts a mynd ar Helfa Drysor i Glynllifon. Roedd cartref Kate Roberts yn fach ond roedd o mewn lle da. Doeddw'n ddim yn gwybod bod Kate Roberts yn byw yn Rhosgadfan cyn mynd ar y trip. Yn nhŷ Kate Roberts roedd o yn dweud ar ddarn o llecen enw ei llyfrau. Roedd yn dda wedyn yn Glynllifon oherwydd roeddem yn cael mynd o amgylch y parc heb yr athrawon. Ar ôl bod yn y siop roeddem yn gorfod mynd ar yr Helfa Drysor o amgylch Glynllifon.



DRAENOG

Tydi'r gwylia 'na yn edrach mor bell yn ôl? A ninnau'n closio fwyfwy at y tân y dyddia yma, atgof yn unig ydi'r dyddia hirfelyn tesog rheiny, boed nhw yma yng Nghymru neu dramor. Ond ma'n amheus gen i fod yna'r ffasiwn beth yn bod a 'gwylia perffaith'. Cymrwch chi'r creaduriaid anffodus yma o fro'r ECO aeth i chwilio am eu Utopia blynyddol.

Roedd un gŵr o Lanberis wedi bod wrthi'n chwys doman dail yn tynnu llunia ei gyd-gantorion tra ar daith i Lorient, Ffrainc hefo Côr

Meibion Bangor. Hanner ffordd drwy'r gwylia sylweddolodd nad oedd wedi rhoi ffilm yn y camera. Roedd yn cofio'n iawn iddo bacio'r ffilm. Ddim hyd nes iddo fo drio stwffio'i draed i mewn i'w sgidia canu y sylweddolodd o lle roedd o wedi ei chadw. GWILiau digon di-lun gafodd y canwr. EV AN Sicrhaodd na wnaiff byth gamgymeriad fel yna eto! Ond chwara teg fe lwyddodd i glicio'i gamera ar yr adeg iawn i gael y clasur yma. Portread ydyw o ganwr arall lleol yn MYFYRio. Ydi ma' canu i ddau gôr yn goblyn o straen!

E. W. Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn: (01286) 870202

**TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU**

Silver STAR GWYLIAU SEREN ARIAN

- PECYNNAU GWYLIAU YM MHRYDAIN, EWROP AC YMHELLACH.
- TEITHIAU I CYNGHERDDAU A THEATRAU.
- TREFNU PECYNNAU GWYLIAU I GRWPIAU A MUDIADAU AM BRISIAU RHESYMOL.
- BWSIAU MODERN A MOETHUS
- CWESTAI O SAFON
- CWMNI TEULUOL
- MANNAU CODI YN CYNNWYS: LLANBERIS, CWM Y GLO A LLANRUG.

**Am fwy o fanyllion am ein teithiau, ffoniwch
ein swyddfa ar y Maes yn Nghaernarfon ar 01286 672333**

CYNGOR CYMUNED LLANDDEINIOLEN

Cynhaliwyd cyfarfod y Cyngor nos Fawrth yr 2 Medi. Dechreuwyd trwy weddi dros yr ardal gan Richard Ll Jones. Llywyddwyd gan y Gadeiryddes Sara Wood. Derbyniwyd pedwar ymddiheuriad. Nid oedd datganiad o fuddiant. Derbyniwyd cofnodion Gorffennaf fel cofnodion cywir.

Materion o'r cofnodion

Adwaith i ymweliad Yr Arolygydd Simon Davies i Gyfarfod Gorffennaf.

Penderfynwyd danfon adroddiad i'r heddlu yn amlygu'r calynol:

- Nid yw'r sefyllfa wedi gwella o gwbl.
 - Ffoniwyd yr Heddlu oherwydd torri i mewn a lladrad o dŷ ym Mhenisa'rwaun am 9.00 y bore. Hanner awr wedi naw yr hwyr ymddangosodd heddwys ar y safle ar ôl amryw o alwadau gan gymdigion yn ystod y dydd (roedd perchennog y tŷ ar ei gwyliau).
 - Yr oedd pump heddwys yn Llanberis, tri sydd yno bellach.
 - Mae'r newid yn null cofnodi troseddau yn gamarweiniol
 - Gofynnwyd, yn y cyfarfod uchod, i'r cynghorwyr barchu'r ffaith nad oedd y Rhingyll Sophie Chance yn dcall Cymraeg. Ni ymddiheuriwyd am ei bod yn uniaith Saesneg. Oes gan yr heddlu gynllun iaith? Oni fuasai'n well cael un heddwys a rhywun fel swyddog y wasg mewn cyfarfod cymuned yn hytrach na dau heddwys?
 - Mae'r camerâu yn Stryd Fawr, Deiniolen yn cael effaith tebyg i Gaernarfon, sef danfon y drwg weithredwyr i gyrion y pentref.
 - Cafwyd addewid am Swyddogion Bro.
- Penderfynwyd hefyd danfon copi o'r llythyr yma i Mr Clive James, Adran y Prifweithredwr, Cyngor Gwynedd gan

ychwanegu barn y Cynghorwyr bod cyfraith a threfn yn torri i lawr a chyfeirio at weithrediadau fel hogiau yn yfed Cider ym Mhorth yr Aur, Caernarfon am 3.30 y prynhawn. Pwyso bod gwir angen y Swyddogion Bro.

Cywiro dyddiad Cynhadledd CCBTC yn Aberystwyth i 11 Hydref.

Ateb Gwynedd i'r cais am loches bws yn Rhiwlas - Penderfynwyd derbyn eu cynnig i'w roi ar restr aros.

Ateb Menter Fachwen ynglŷn â thorri gwair - defnyddir yr un gweithwyr o hyd ond gyda goruchwyliwr newydd. Mae peth dryswch ynglŷn â pha lwybrau i'w torri. Penderfynwyd ailedrych ar y rhaglen dorri gwair erbyn gwanwyn '04.

Tan y Bwlch, Dinorwig. Ateb Gwynedd - cedwir llygad ar gyflwr y wal.

Y ffordd o Gae Cerrig i Ddeiniolen - Mae Cyngor Gwynedd yn derbyn bod y gwaith torri gwair ar hyd y ffordd yma yn fler ac yn sicrhau na fydd y safon mor wael yn y dyfodol.

Pen Rhôs, Bethel. Llusern oleuo'r ffordd wedi ei gosod ar gost Cyngor Gwynedd.

Derbyniwyd cadarnhad Gwynedd y gosodir arwyddion i (1-3) Preswylfa, Clwt y Bont.

Gwasanaeth Bws o Fethel i Gaernarfon. Ateb Gwynedd nad oes modd darparu gwasanaeth ar yr amseroedd iawn ar gyfer ysgol Syr Hugh Owen, hefyd bod Bethel yn nhalgylch ysgol Bryn'refail.

Penderfynwyd gofyn i Brifweithredwr Gwynedd pwy yw'r Swyddog Adfywio Bro.

Gohebiaethau eraill

Parc Padarn / Gilfach Ddu

Ers i'r rheilffordd fach gael ei hymestyn nid yw'r ymwelwyr yn cael cyfle i ymweld â gweithdai'r Gilfach Ddu oherwydd amserlen y trên gan mai dim ond ychydig o amser yn

Parhad ar dudalen 13

GORSAF BETROL

 **BERAN**

DEINIOLEN

Ffôn: (01286) 871521

Ar agor 7 a.m. - 9 p.m. bob diwrnod

**Petrol • Diesel • Nwy Calor • Glo
Cylchgronau • Papurau Newydd
Cardiau Penblwydd • Wyau
Nwyddau Groser • Melysion**

TIGEDI LOTERI AR WERTH YMA!

Atodiad LLANRUG

(Parhad o dudalen 9)

BRYSIWCH WELLA. Dymuniadau gorau am wellhad buan i Mr Ronnie Evans, 4 Ffordd Glanffynnon. Braf iawn deall eich bod adref wedi tymor hir a phryderus yn ysbytai Lerpwl.

Hefyd Mr a Mrs Emllyn Jones, 3 Ffordd Glanffynnon. Mae Mrs K. Jones wedi bod yn yr ysbyty yn dilyn damwain car a Mr Jones yn derbyn triniaeth arbennig.

DYMUNIADAU GORAU i holl bobl ifanc y pentref sy'n cychwyn mewn colegau neu ar yrfaedd newydd. Pob lwc i chi i gyd.

DIOLCHIADAU. Dymuna Iwan Rhys Williams, 19 Stad Glanffynnon ddiolch i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau, anrhegion a dymuniadau gorau a dderbyniodd ar ddathlu ei ben-blwydd yn 18 oed. Hefyd, diolch yn fawr am y dymuniadau gorau ar ei lwyddiant yn ei arholiadau lefel A. Diolch yn fawr iawn.

GALW AM DRO. Yn flynyddol daw criw Blwyddyn 7 heibio i'w hen ysgol ar derfyn eu dyddiau cyntaf yn eu hysgol newydd, ac nid eithriad oedd eleni. Rydym yn falch o'u gweld a deall eu bod wrth eu bodd ac yn setlo'n dda.

GWAITH MAES. Bu dros ddeugain o ddisgyblion Bl. 5 a 6 yn aros yng Ngwersyll Glanllyn y Bala am dridiau. Buont yn ymwneud â phob math o weithgareddau awyr agored o dan ofal staff y gwersyll, Miss Jones a Mr Williams.

Wedi dychwelyd i'r ysgol brynghawn Gwener roeddynt yn hynod o falch bod penwythnos o'u blaen er mwyn cael cyfle i ddadflino ychydig.

YMWELD. Mae pob dosbarth erbyn hyn wedi ymroi i'w gwaith thematig a bydd disgyblion Bl. 1 a 2 yn ymweld â Melin Llynnon ar Ynys Môn i weld y grawn yn cael ei falu'n flawd.

MERCHED Y WAWR. Cynhaliwyd cyfarfod o gangen Llanrug yn y Ganolfan Gymunedol nos Fawrth, 9 Medi. Croesawodd Meirwen, y Llywydd, aelod newydd sef Enid Williams, gynt o'r Groeslon ac hefyd Anwen Owen sydd wedi ail-ymaelodi. Cydymdeimlwyd â Mrs Lovatt, Aberystwyth, a fu'n aelod hefo ni am flynyddoedd, ar golli ei phriod ac â Beryl Thomas ar golli ei chwaer yng nghyfraith. Trist hefyd oedd clywed am farwolaeth Mrs Roberts, Manod a fu'n aelod ar un adeg.

Llongyfarchwyd Olwen, Enid ac Eirianwen ar ddod yn neiniau ac â Mrs Whiteside Thomas ar ddod yn hen nain. Ar nodyn hapus hefyd llongyfarchwyd Bedwyr, mab Ann Ifans, ar ei briodas â Lisa.

Cafodd pawb y cyfle i weld bwydlen y cinio Nadolig a gynhelir eleni ym Mhlas Tirion. Dosbarthodd Meryl gopïau o adroddiad ariannol y gangen am y flwyddyn 2002/03. Diolchodd Mary am y cyfraniadau a'r cymorth a roddodd nifer o aelodau at yr Ardangosfa Celf a Chrefft a Ghoginio a gynhaliwyd yn Neuadd Tregarth.

V gwestwragedd oedd Margaret Jones, Tregarth a'i merch, Jane. Dangosodd y ddwy enghreifftiau ardderchog o'u gwaith, sef darluniau amrywiol wedi eu paentio ar sidan ynghyd â phaentio ar sidan wedi ei ymgorffori mewn

cardiau cyfarch amrywiol. Adroddodd Margaret fel yr oedd wedi ymddiddori erioed mewn arlunio a chrefftau eraill ac eglurodd y modd y gellir paentio ar sidan. Yna cafodd pawb baentio darn o sidan a'i roi mewn cerdyn ac, ar y diwedd, ymddangosai ymdrech pawb yn ganmoladwy iawn. Diolchodd Meirwen i Margaret a Jane am noson arbennig.

Enillydd y raffl oedd Margaret, Dwyros. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar nos Fawrth, 14 Hydref a bydd Helen Bradley, cynrychiolydd The Body Shop yn rhoi cyflwyniad ar ofalu am y croen a choluro.

DRAENOG

Ac ymlaen â ni at daith arall. BETH A'N harweiniodd ni at y stori oedd clywed gan gyd-ddraenog fod yna banics mewn maes awyr rhywle yn Lloegr. Merch, wedi ei magu'n annwyl yng nghyffinia Llanddeiniolen, wedi sylweddoli fod ei phasbort hi wedi rhedeg allan a hitha yn y maes awyr ac yn barod i hedfan. Ffoniodd adra - 'Sori i'ch poeni chi dad, ond ma' gin i broblem FACH - ELLa na châ i ddim mynd ar fy ngwylia...' Does dim angen deud mwy. Digon yw deud fod wyneb ei thad EL yn WYN fel y gialchan pan glywodd y neges.

Cafodd merch arall (o Lanber y tro hwn) daith ychwanegol a chwbl annisgwyl ar y trên. Ar ôl dychwelyd o'i gwylia hefo'i merch a chyrraedd stesion Bangor aeth i chwilio am ei bagia. Aeth fel CATH i gythraul a gwneud BEE lein amdanynt. Yn anffodus roedd ei bagia wedi eu claddu dan bentwr o fagia eraill. Docdd gan CATH RYN ddim syniad be i wneud. Yn y diwedd bu'n rhaid iddi deithio yr holl ffordd i Gaergybi ac yn ôl i Fangor cyn cael ei dwylo ar ei bagia unwaith eto!

Elin Mai Jones



Bu'r Eisteddfod Genedlaethol ym Meifod eleni yn gyfrwng o lwyddiant ysgubol i ddwy ferch ifanc o Lanberis, sef, Elin Mai Jones a Mari Wyn Williams. Derbyniodd y ddwy eu haddysg elfennol yn ysgol y pentref, Ysgol Dolbadarn ac, fel cyn-ddisgyblion eraill megis Rhian Owen a Timothy Wardig, gwnant gryn enw iddynt eu hunain ym myd canu cerddoriaeth glasurol.

Yn yr erthygl hwn cyfeirir at Elin Mai gan fawr hyderu y ceir y cyfle yn y rhifyn nesaf o'r Eco i sôn am Mari Wyn.

Ie, geneth o bentref Lanberis yw Elin Mai, yn ferch i John Gwynedd a Heather 3 Macs Padarn ac yn chwaer i John Gareth. Ers pan yn blentyn ifanc iawn mae Elin wedi canu mewn cyngherddau

ac eistedffadau ac y mae'n hollol gartrefol ar lwyfan a'r cyfryngau.

Erbyn heddiw ei phrif ddiddordeb yw canu clasurol ac mae ei bryd ar astudio yn y maes hwn a chanu opera, h.y. yn dilyn ei haddysg yn Ysgol Brynrefail, Llanrug, mae'n astudio yn awr ar gyfer Arholiad Canu Gradd 6.

Medda Elin ar dalent arbennig, llais cyfoethog glân fel grisial a personoliaeth tawel a hyfryd, ac fel y cyfeiriwyd eisioes, y mae'n gartefol ar lwyfannau yng Nghymru a Lloegr.

Saith mlynedd yn ôl cafodd Elin y cyfle godidog i dderbyn hyfforddiant gan Siân Wyn Gibson, Deiniolen gynt, cantores adnabyddus a derbynadwy. Yn ystod y saith mlynedd hon llwyddodd Siân i feithrin a datblygu talent Elin Mai, a hynny gyda chryn lwyddiant. Yn ystod y blynyddoedd o hyfforddiant bu'n lwyddiannus iawn.

Enillodd ar yr Unawd Gymraeg Agored yn Eisteddfodau Môn (2001) Llanllyfni (2002), Abergynolwyn (2002), Clynog (2002) ac yn y Genedlaethol ym Meifod (2003) ar yr unawd Gymraeg tan 16oed, yn ogystal a'r Unawd Gymraeg tan 15oed yn Eisteddfod Ryngwladol Llangollen (2001).

Rhestr fer yw hon o orchestion Elin ac nid yw cystadlu tros y ffin yn Lloegr yn ddieithr iddi chwaith. Er engraifft, yng Ngŵyl Gerddorol Caer yn y flwyddyn 2002 enilliodd yr Y. J. G. Curtis Memorial Cup, a'r Oliver Stoker Memorial Salver yn 2003.

Merch ifanc dalentog ar drothwy gyrfa yw Elin Mai, ac fel y cyfeiriwyd eisioes ei gwir ddymuniad yw canu mewn operau. Yn sicr, mae'r ddawn yn ei meddiant ac fe ddymunir pob bendith a llwyddiant iddi i'r dyfodol.



CARPEDI GERAIN OWEN

GWERTHWYR CARPEDI, TEILS CARPED A FEINYL
CANNOEDD O DDEWIS O BATRYMAU A RHAI MEWN STOC
FFONIWCHE UNRHYW AMSER:
WAUNFAWR (01286) 650552

Dylan Griffith

TREFNWR ANGLADDAU ANNIBYNNOL a LLEOL
TROS-Y-WAEN, PENISARWAUN

Yn gwasanaethu'r holl ardal yr ECO ac ymhellach i ffwrdd

Gwasanaeth teimladwy, urddasol a phersonol.

24 awr y dydd

Ffoniwch: **Dylan (Llys) ar 871833**

Symudol: **07778 127394**

HEFYD



CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA

Cyrhaeddwch mewn steil - mewn cerbyd *Rolls Royce* ar gyfer priodasau, pen-blwyddi ac achlysuron arbennig eraill

STEPHEN JONES

† Trefnwr Angladdau
Llanberis ac Ardal yr Eco

(01286) 870 870

(01286) 872 491

(07770) 265 976

Cwmni Annibynnol Lleol
Profiadol

Royal Victoria Hotel

LLANBERIS

Mae'r gwesty yn darparu ar gyfer

PRIODASAU • PARTÏON • DATHLIADAU ac
ACHLYSURON ARBENNIG

CYFLEUSTERAU CYNHADLEDDAU a
PHWYLLGORAU

BWYDLEN BAR a CHINIO DYDD SUL

Ffôn: (01286) 870253

Gwasanaeth o'r Safon Uchaf am Brisiau Rhesymol

Gwasanaeth Trylwyr
gan y bobl **BROFFESIYNOL**
Gwasanaeth Personol Cyfeillgar i **CHWI**
Y Gwasanaeth Technegol Gorau
i'ch **CAR**. Cystal â
Gwasanaeth Prif Ddoliwr
Felly, pa gar bynnag ydych
CHWI yn ei yrru,
o Audi i Zastava

website: www.a-v-w.co.uk



Car neu Fan
Petrol neu Diesel
Carb. neu Chwistrelliad

bydd ein Gwasanaeth
ni yn arbed £ £ £
ac yn ymestyn oes eich car



AVW YSTAD CIBYN
CAERNARFON (01286) 673559



Jones

Contractwyr
Trydan

Goleuadau
Argyfwng ac
offer Larwm Tân

Gwasanaeth i
Gymru Gyfan

Aelod o

NICEIC

Contractwyr Trydan
Eisteddfod yr Urdd
a'r Cenedlaethol

&

Whitehead Cyf.

Prif swyddfa
Penrall, Tregarth, Gwynedd

Ffôn: 01248 601257

Ffôn (nos):

01248 600477 a 601011

Ffacs: 01248 601982

CYNGOR CYMUNED LLANDDEINIOLLEN

Parhad o dudalen 11

yr orsaf sydd ganddynt Dyma'r
rheswm pam bod y Caffi'n cau, a
hwnnw wedi ei sefydlu ag arian
cyhoeddus. Y perygl yw y bydd
mwy o fusnesau yn cau yno os na
newidir y drefn. Penderfynwyd
danfon cwyn i Wynedd.

Adeilad Carnegi, Deiniolen
Cyflwynwyd llythyr Mr Len
Parry ynglŷn â chynnal a
chadw'r Gofeb Rhyfel.
Penderfynwyd cysylltu â
Gwynedd i ofyn pwy sy'n
gyfrifol am hyn.

Maes Parcio Marchlyn Mawr
Yr awdurdodau perthnasol yn
dal i ddadlau perchnogaeth.

Llythyr Carwyn Jones AC.

Sue Essex wedi derbyn cwynion
gan Fforymau Cynllunio
Rhanbarthol ynglŷn â'r Cod
Ymddygiad, yn arbennig ar
faterion datgelu buddiant.

Cae Chwarae, Penis'rwaun
Ateb Gwynedd yw nad ydynt yn
cytuno i newid cyfeiriad y
llithren.

Llwybr Zig-Zag, Dinorwig
Derbyniwyd ateb Gwynedd y
byddant yn gwella cyflwr y
llwybr yma.

Cynllun Gwastraff

Rhanbarthol Gwynedd

Cyflwynwyd yr adroddiad, y
pamffledi a'r posteri. Fel ar gyfer
pob cyfarfod, yr oedd pentwr
sylweddol o bamffledi a
llyfrynau lliwgar o wahanol
gyrff i'w rhannu wrth sôn am
arbed gwastraff!

Penderfynwyd gofyn i
Wynedd sut mae plastig yn gael
ei ail gylchu.

Lloches bws, Bethel

Ail gais am gysgodfan Bws.
Penderfynwyd ar ateb yn egluro
bod dwy gysgodfan ym Methel
eisioes, lle mae pentrefi eraill
heb yr un. Pan osodwyd
cysgodfannau Bethel, dewisiwyd
y ddau safle gorau allan o chwe
dewis. Buasai gosodiad lle yr
awgrymir, o flaen tai, yn anheg
â'r trigolion hynny.

Cais Yr Herald i'r clerc am
cnwau a rhifau ffôn yr aelodau.
Penderfynwyd gwrthod. Os
gofyn yr Herald am rif ffôn
cynghorydd, y Clerc i ofyn
caniatâd y cynghorydd hwnnw
yn gyntaf.

Materion Prifffyrdd

Penderfynwyd tynnu sylw
Gwynedd at:

1. Y ffordd heibio i Ysgoldy.
Symud yr arwyddion 30mya
yn nes at Racca.
2. Ffordd California, Clwt y

Bont. Ceir yn parcio ger y
bont yn ei gwneud yn
amhosib i lorïau mawr
gymryd y tro.

3. Mae angen arwyddion atgoffa
30mya (repeaters) o Ddeiniolen
i fyny Gallt y Foel a thrwy
Dinorwig.

4. Tawelyddion trafndiaeth
Rhiwlas. Mae'r tawelydd
pellaf oddi wrth yr ysgol ar
ran mor llydan o'r ffordd nes
bod ceir yn ei osgoi trwy fynd
y tu allan iddo. Mae hyn yn
beryglus i gerddwyr a phlant.

Cynllunio

Estyniad - 5 Rhes Deiniol.
Hysbyswyd y cyfarfod bod y
Cynghorwyr lleol yn
gwrthwynebu'r cais yn ei ffurf
bresennol am ei fod yn amharu
ar rifau 4. a 6. Hefyd ei fod yn
fwy na'r estyniadau sy'n bodoli
ar hyd y Rhes.

Ceisiadau a ganiatawyd gan
Wynedd:

Dymchwel a chodi pedwar tŷ -
Capel, Rhiwlas.

Codi estyniad - 43 Caeau
Gleision, Rhiwlas.

Codi un tŷ - 67 Caeau Gleision,
Rhiwlas.

Ehangu y cwrtill - Waen
Rhythallt, Llanrug.

Conservatory - Llys y Wennol, Y
Ddôl, Bethel.

Estyniad - Bronallt, Tan y
Buarth, Bethel.

Ymestyn safle tipio - Nant y
Garth Landfill Site.

Gwrthodwyd gan Wynedd:

Cadw dau arwydd - Tŷ Mawr Tea
Rooms yn

Llanddeiniolen;

Estyniad - Penrhyn Bach,
Llanrug.

Estyniad - Tyddyn Andrew
Cottage, Bethel.

Estyniad - 28 Caeau Gleision,
Rhiwlas.

Adnewyddu To - Dinorwig
House, Blue Peris.

Estyniad - 1 Bron y Waen,
Rhiwlas.

Estyniad - Wern Fawr,
Llanddeiniolen.

Codi uchder estyniad presennol
- Coed y Gelli, 3 Dinorwig
Cottages

Codi Porth, estyn garaj - Bron
Gyfn, Deiniolen.

**Mater ychwanegol: Friction
Dynamics**

Penderfynwyd
danfon at Alun Ffred Jones AC a
Hywel Williams AS i ofyn
iddynt fynnu cael ymchwiliad
llawn o'r hyn sy' wedi digwydd
i'r holl arian cyhoeddus a
gyfeiriwyd i Friction Dynamics.

Dyddiad y cyfarfod nesaf -
21ain Hydref 2003

BWS BACH AR LOG

Bws 22 sedd ar gael ar gyfer pob
math o logi preifat - nosweithiau
allan, partiön, tripiâu ac ati.

Gwasanaeth personol a thelerau
rhesymol gan



(01248) 361044

D. P. OWENS RHIWLAS


Briwsion Byd Natur

Dafydd Guto

Atebion Cystadleuaeth Croeso'r Haf (chwilota am 11 enw ym myd natur)

Gair arall yn yr iaith Gymraeg am *iorwg* yw *eidderw*. Derbyniwyd atebion cywir oddi wrth Moreen Lennon, Llanberis; Margaret Cynfi, Deiniolen; Sue Roberts, a Beti Owen, Bethel, a Margaret W. Roberts, Caernarfon.

Llongyfarchiadau lu oddi wrth Eco'r Wyddfa. Doedd na'r un collwr! Mae'r gwobrau wedi eu hanfon atoch ac wedi eich hen gyrradd erbyn hyn!



DARLITH FLYNYDDOL CAPEL REHOBOTH NANT PERIS

Nos Wener, 10fed o Hydref
am saith o'r gloch yn y capel

Y cyfle olaf, efallai, i glywed y sgwrs
gan y PARCH IORWETH JONES OWEN

"Atgofion am Tom Nefyn"

Croeso cynnes i bawb

Bydd cyfle i chwi gyfrannu eich atgofion
chwithau, os mynnwch, ar y diwedd

Mwy o wybodaeth: 01286 871218 neu 0787 0267447

Darperir lluniaeth



CONTRACTWYR TRYDANOL ELIDIR

Bob math o waith trydanol i'r Cartref, ac
i Sefydliadau Masnachol a Diwydiannol

Tel: (01286) 879064 • Symudol: 07810736482

Amcangyfrif am ddim • Ar gael 24 awr y dydd

Shaun Jones, Terannedd, Rhos Cynfi, Deiniolen LL55 3LG

Peidiwch a gori ar stori anfonwch hi i'r Eco



• Tŷ Rhydd • Bwyd Cartref • Prydau Plant
• Ystafell Deulu • Cinio Dydd Sul Traddodiadol
• Gerdoriaeth Fyw • Cwrw Go iawn

Ffôn: 650218

NANT PERIS

Llinos Jones, 6 Nant Ffynnon. Ffôn: (01286) 871820

Camera yn ngofal John Pritchard, Cilfynydd, Llanberis. Ffôn: 872390

CAPEL REHOBOTH. Nos Wener, 10 Hydref am 7 o'r gloch cynhelir Darlith Flynyddol Rehoboth. Bydd y Parch Iorwerth Jones Owen yn sôn am 'Atgofion am Tom Nefyn'. Croeso cynnes i bawb.

GWYL FFAIR NANT. Cafwyd 'Haf bach Mihangel' go iawn i ddechrau'r dathlu eleni. Roedd eglwys fach y Nant yn edrych yn hyfryd a'r rhai fu'n brysur gyda'r blodau wedi cael eu plesio'n fawr gyda'r canlyniadau, rwy'n siŵr.

I ddechrau'r gweithgareddau nos Sul, 14 Medi cafwyd Cymanfa Ganu lewyrchus dan arweiniad Mrs Glenys Griffiths yng Nghapel Rehoboth, gyda Chôr Clychau'r Grug a Gareth Jones wrth yr organ.

Hwyl gyda'r gweithgareddau sydd i ddod a llongyfarchiadau ar y llwyddiant eto eleni. Deg allan o ddeg i'r trefnwyr a diolch am eich ymroddiad. Daliwch ati.

GWYL FFAIR NANT. Cafwyd wythnos brysur unwaith eto eleni, er gwaetha'r gwynt a'r glaw! Ond dyna ni, does dim posib trefnu'r tywydd am wn i!

Daeth nifer o gantorion y fro i ganu yn y Gymanfa ar nos Sul y 14eg o Fedi a phawb wedi mwynhau gwrando ar Glychau'r Grug a Stephanie Welsby. Diolch yn ogystal i'r Parch John Pritchard am lywyddu'r noson ac i Gareth Jones am gyfeilio.

Gan fod nifer o drefnwyr y ffair wedi bod wrthi'n brysur yn addurno'r eglwys dros y penwythnos, penderfynwyd cael gorffwys bach ar y nos Lun er mwyn gwneud yn siŵr fod yr ymennydd yn ffres erbyn y cwis ar y nos Fawrth. Cofiwch chi, anghofwyd am ateb cwestiynau pan ddechreuodd y chwisgi lifo! Diolch i gwmni

Bells am noddi'r noson.

Cystadleuaeth pŵl oedd ar y nos Fercher a helpa drysor ar y nos lau. Ac am helpa! Marathon o daith yn y gwynt a'r glaw a'r tywyllwch... ond cafodd pawb gyfle i g'nesu yn y dafarn wedyn - diolch i garioci Elfis Preseli a rhywfaint o jeri bins! Braf oedd gweld trefnydd y daith, yr Elvis arall (aka Y Parch Philip Hughes) yn diddanu'r gynulleidfa ar y carioci! - Diolch iddo fo a Sandra am drefnu'r noson.

Canu fu pawb ar y nos Wener hefyd ond tro'r grŵp proffesiynol oedd hi'r tro yma! Cafwyd noson hwyliog iawn yng nghwmni'r Cajun's Denbo - diolch iddynt am eu hamser.

Fore'r ffair - yn y glaw, roedd y stondinau'n cael eu codi a phawb yn brysur yn trefnu rhywbeth neu'i gilydd. Er gwaetha'r tywydd, daeth cryn dipyn o bobl i gefnogi a doedd dim ots am y glaw ar ôl bod ar y sleid ddŵr! Diolch i Jonsi, Radio Cymru, a ddaeth i werthu'r cacennau siocled ymysg pethau eraill!

Daeth yr ŵyl i ben gyda noson o ddarllen limrigau a chanu yn Ty'n Llan - diwedd gwych i wythnos lwyddiannus arall.

Diolch i holl aelodau'r pwyllgor ac i bawb a gynorthwyodd i drefnu'r ŵyl. Bydd canlyniadau'r ŵyl yn ogystal â lluniau i'w gweld yn rhifyn nesaf o'r Eco.

CYFARCHION CYNNES i Brenda Roberts, Ystrad, a fu'n dathlu ei phen-blwydd yn ddiweddar.

PEN-BLWYDD HAPUS hefyd i Gwenda Roberts, Glanrafon a fydd hefyd yn dathlu pen-blwydd arbennig ar y 13eg o Hydref a phob hwyl yn Seland Newydd!

Cefnogwch ein Hysbysebwy



GARETH GRIFFITH A'I GWMNI

Cyfreithwyr

6 Pepper Lane, Caernarfon, LL55 1RG

Tel: 67 68 69 Ffacs: 67 77 05

E-bost: ggriffith.ggco@virgin.net

- Prynu a Gwerthu Tŷ • Ewyllysiau a Phroffiant
- Hawliadau Damweiniau • Prydles ac Eiddo
- Cyfreithiad Troseddol a Sifil • Deddf Drwyddedu
- Ysgariad a Gwarchodaeth Plentyn
- Perchennog a Thenant
- Pob Gwaith Cyfreithiol Cyffredinol

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263



Plant Dosbarth Meithrin Ysgol Penisarwaun

YR YSGOL CYMUNED. Dymunir pob lwc i'r rhai sydd newydd gychwyn yn Ysgol Brynrefail. Croesewir saith sidgybl i'r Dosbarth Meithrin a gobeithio ybyddant yn hapus iawn.

PWYLLGOR YR EISTEDDFOD BENTREF. Cynhelir Noson Bingo nos Wener, 24 Hydref yn y Neuadd Gymuned am 6.30. Croeso cynnes i bawb.

YR EISTEDDFOD BENTREF. Cynhelir yr Eisteddfod yn y Neuadd Gymuned, dydd Sadwrn, 15 Tachwedd, i gychwyn am 2.00 o'r gloch. Bydd egwyl, gyda lluniaeth ysgafn ar gael ganol y prynhawn.

Y Beirniaid fydd: Cerdd – Megan Roberts; Adrodd – Tami Gwyn; Llên – Alwyn Fleming; Ceginio a Gwaith Llaw – Pat Jones; Arlunio – Islwyn Williams. Y Llywydd eleni yw Sioned Jones.

Mae'r rhaglen eisoes ar gael gan aelodau'r Pwyllgor. Dylid anfon copi o'r cystadlaethau Hunan Ddewisiad Adrodd i'r Ysgrifennydd, Elizabeth Woodcock erbyn 15 Tachwedd.

Y cynnyrch Llên, Rhyddiaith, Limrig, Brawddeg o'r gair 'Cynulliad' o Blwyddyn 7 i fyny, ynghyd â gwaith Ffotograffiaeth adran Cynradd; unrhyw lun cyfrifiadurol, darlun, poster oedran Uwchradd a hŷn i'w hanfon i'r ysgrifennydd erbyn 24 Hydref. Gwaith Ceginio a Gwaith Llaw i'w hanfon i'r Neuadd Gymuned erbyn 3.30 nos Lun, 10 Tachwedd.

Y mae cystadlaethau arbennig eleni sef: Cynllunio Logo ar gyfer Wefan Eisteddfod Bentref Penisarwaun. Gweler y wefan am fanylion ac amodau ar www.eisteddfodpenisarwaun.org

Gobeithio y cawn Eisteddfod llwyddiannus eto eleni. Hwyl ar yr ymarferion.

CYFELLION YR HENOED. Cynhelir Noson Bingo yn y Neuadd Gymuned am 6.30. Mynediad 50c yn cynnwys paned. Croeso cynnes i bawb.

YR URDD. Bydd yr Adran Bentref yn cychwyn ei gweithgareddau y nos Fercher ar ôl yr Eisteddfod Bentref.

PHOTOGRAFFIAETH. Gwymymuimlir yn ddwys iawn ag Arfon a Megan, 6 Bryntirion, ynghyd â Megan, Kate, Bet a Norman a'r cysylltiadau oll yn eu colled o golli mam ofalus iawn, sef Mrs Ethel Jones.

GWELLHAD. Da deall fod Mrs Elinor Jones, Heather Bank wedi gwella wedi ei thriniaeth yn yr ysbyty. Dymuna Elinor ddiolch i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am y cardiau, galwadau ffôn, anrhegion ac ymweliadau wedi'i thriniaeth.

Gobeithio fod pawb arall ohonoch sydd wedi bod yn sâl yn gwella erbyn hyn.

DIOLCH. Dymuna Elinor Williams, Bryn Rhydd a'r teulu oll ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt, boed yn gardiau, ymweliadau a rhoddion tuag at Tŷ Gobaith wedi marwolaeth sydyn ei brawd, Elwyn.

LLONGYFARCHIADAU i Cenin Eifion ar gael ei hethol yn Brif Eneth Ysgol Brynrefail. Da iawn chdi, Cenin.

Llongyfarchiadau hefyd i Mrs Sally Griffith, 16 Bryntirion ar gyrraedd 80 oed. Pob bendith i chwi, Mrs Griffith.

Dymunir llongyfarch Kevin Williams a'i briod, 20 Bryntirion ar eu priodas yn ddiweddar a hynny yn Llundain. Priodas hapus iawn i'r ddau ohonoch.

PWYLLGOR NEUADD. Enillwyr Clwb Cant Awst oedd Reneé Morris, 2 Llys y Gwynt, Elen Lewis, Penpwllcoch, Annie Hughes, Tŷ Newydd.

Enillwyr Medi oedd: Janice Jones, Perthi, Rhian Roberts, Pen-y-groes, Wendy Phillips, Tai Arthur.

Erfynnir am fwy o aelodau i'r Clwb Cant, dim ond £6 y flwyddyn neu 50c y mis yw'r tâl, neu gellir ymaelodi drwy Archeb Bost, ar gael gan y Trysorydd, Dafydd Williams.

Y mae Hysbysfwrdd wedi'i osod wrth glât yr ysgol fel bod pob gweithgaredd o fewn y pentref yn gallu cael eu harddangos yn glir i bawb.

Cynhelir Ocsiwn Addewidion nos Wener, 28 Tachwedd am 6.30 a gofynnir yn garedig am unrhyw addewid tuag at yr Ocsiwn.

Y mae Catalog Webb Ivory eisoes yn mynd o gwmpas ac os dymuna unrhyw un brynu anrhegion neu gardiau a phapur Nadolig ohono, yna cysylltwch â Phyllis Ellis: Ffôn 870237.

PRIODI YN FFRAINIC. Dymunir priodas hapus i Osian Dafydd a Sara ar 31 Hydref yn Auxerre, Ffrainc.

YSGOL SUL BOSRA.

Llongyfarchir y plant am gasglu


£100 tuag at y Genhadaeth Dramor. Diolchir i bawb a gyfrannodd ac i Mrs Elizabeth Jones am eu hanogaeth.

EGLWYS SANTES HELEN. Cynhelir y Gwasanaeth Diolchgarwch ar Sul, 19 Hydref am 10.30, pryd y gweinyddir y Cymun Bendigaid. Yna am 5 o'r gloch ceir Gosber a phregeth, ynghyd ag eitemau gan aelodau'r Ysgol Sul.

Nos Lun, 20 Hydref, cynhelir Ffair Gynhaef yn Neuadd yr Eglwys am 6.30. Croeso cynnes i bawb. GWEITHGAREDDAU'R CARNIFAL Cafwyd nosweithiau o weithgareddau amrywiol a llwyddiannus eto eleni gyda Bino, Helfa Drysor, Epitaff a Ffrindiau, Mabolgampau, Disgo i'r plant, Gyrfa Chwist a Dawnsio Gwerin. Cafwyd diwrnod hynod o braf i'r Carnifal bnawn Sadwrn, 13 Medi ac roedd y cystadlu yn galonogol iawn.

I gloi'r gweithgareddau cynhaliwyd Cymanfa Ganu yn Eglwys Santes Helen gydag eitemau gan Gôr Cofnod, Caernarfon. Bydd mwy o fanylion, canlyniadau a lluniau yn y rhifyn nesaf. Dymuna'r Pwyllgor ddiolch i bawb a gyfrannodd ac a gefnogodd yr amrywiol weithgareddau.

ANRHYDEDD. Llongyfarchiadau i Phyllis Elis ar gael ei anrhydeddu am ei hymroddiad a'i dycnwlch i Blaid Cymru ar hyd y blynyddoedd. Fe anrhydeddwyd Phyllis ac Olwen Llywelyn, Llanrug yng Nghynhadledd y Blaid, yn Neuadd Dewi Sant, Caerdydd ar 2 Medi.



GWYNANT PIERCE

Cynyrchion Coed:
Gatiau, Ffensus ac ati
am brisiau cystadleuol

Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG

Ffôn: (01286) 650349
(0589) 899901

Wavell Roberts

CIGYDD

London House
LLANRUG

Ffôn: (01286) 673574
PEN CIGYDD Y FRO

Yrŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref
Cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist
MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!



Smot ac aelodau ifanc Cylch Ti a Fi Penisarwaun.

CYLCH TI A FI PENISARWAUN. Ar ddiwedd tymor yr haf trefnwyd castell neidio ar gyfer y plant ac yno hefyd yr oedd Smot y ci. Yn ystod gweithgareddau'r prynhawn casglwyd £80.00 tuag at apêl Tŷ Hafan – Tŷ Gobaith S4C ar ran Mudliad Ysgolion Meithrin. Diolch i bawb am bob cyfraniad.

Mae tymor newydd wedi aildddechrau ac mae croeso cynnes i unrhyw riant/gofalwr i ddod draw gyda'r plant i ymuno â'r hwyl. Byddwn yn cyfarfod ar ddydd Mawrth rhwng 1.30 a 3.00 yn Neuadd yr Eglwys. Os am fwy a fanylion galwch draw.

**CEFNOGWCH
EIN
HYSBYSEBWYR**



**ORIEL
CWM**
Cwm y Glo

Ffôn/Ffacs: (01286) 870882

Gwasanaeth Fframio
Lluniau o bob math
ar gael ar y safle
Prisiau Rhesymol
Arddangosfa o luniau
gwreiddiol gan
Artistiaid Lleol
Richard S. Humphreys

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. Ffôn: 870580

NOFIO NODDEDIG. Mae'n bleser gan Mr Keith Rothwell, Llwyn Helyg gyhoeddi iddo ef a'i ffrindiau 'The Olde Bangors' - pump ohonynt - lwyddo yn yr orchest o gwblhau nofio ar draws y Sianel o Loegr i Ffrainc am ddeunaw munud wedi naw nos Fawrth 26 Awst, wedi unarddeg awr a chwarter o nofio cyson. Y *Viking Princess* oedd y cwch hebrwng gyda'r capten yn beilot profiadol yn y math hwn o weithgaredd. Wedi cychwyn o Dover, treuliodd pob aelod o'r tîm awr ar y tro yn nofio a chyrhaeddwyd yn Cap Griz-Nez a'r gwynt wedi codi, y môr yn llawn berw a'r tywyllwch yn cau amdanynt, gyda golau tortsh o gwch bychan i'w hebrwng i'r lan. Yn ddiweddarach, yn llawn balchder, ymunwyd â'r *Viking Princess* i wneud y daith deirawr yn ôl i Dover. Llawenydd yw cyhoeddi iddynt godi £10,000 at elusen ac mae eu diolch yn wresog i bawb am y gefnogaeth gafwyd ymhob ystyr i wynebu'r sialens a llwyddo mor rhagorol.

LLWYDDIANT Llongyfarchiadau i Amy Lambert, Glandwr ar ei llwyddiant addysgol diweddar a'n dymuniadau gorau iddi yn ei chwrs ar Luniaeth a Dieteg ym Mhrifysgol John Moores yn Lerpwl.

DIOLCH Dymuna Mrs Eirianwen Evans 1 Ffrwd Madog ddiolch yn gynnes am y dymuniadau da ac am bob caredigrwydd dderbyniodd tra bu yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar ac wedi dychwelyd gartref.

PWYLLGOR CYMUNEDOL Cynhaliwyd Cyfarfod Blyneddol Pwyllgor Llywio Ganolfan Gymunedol Brynrefail yn y Ffestri nos Fawrth 16 Medi dan lywyddiaeth Mr Gwyn Hefin Jones. Cyflwynwyd adroddiad yn crynhoi gwaith y pwyllgor am y flwyddyn ynghyd ag adroddiad ariannol. Cyflwynwyd a mabwysiadwyd y cyfansoddiad ar gyfer y pwyllgor llywio. Cafwyd trafodaeth fywiog ar sawl mater yn codi o'r adroddiadau a phenderfynwyd mabwysiadu ffurf ddwyieithog ar enw'r pwyllgor. Eglurwyd sut y cymhlethwyd materion yn ddiweddar gyda dyfodiad y Ganolfan Grefftau. Yn wreiddiol, fel y pwysleisiodd y Cyngor sawl gwaith, nid oedd hawl cynllunio ar gyfer unrhyw fath o ddefnydd cymunedol yn y Ganolfan Grefftau. Erbyn hyn llaciwyd y rheolau, gan ganiatáu rhywfaint o ddefnydd cymunedol cyfyngedig. Mae'n amlwg nad yw hyn yn dod yn agos at gynnig y cyfleusterau eang mae'r Gymuned wedi gofyn amdanynt yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus trwy'r pentref, megis cyfleusterau llawn i blant, ieuengid a henoed. Serch hynny mae

trafodaethau wedi dechrau gyda Chwmni Caban Cyf. i weld pa gyddefnydd a ellir ei wneud ac o dan ba amodau. Cytunwyd i ail-ethol y Pwyllgor ac i gynnal cyfarfod cyhoeddus arall ymhen chwe mis pan fydd adroddiad gan gwmni o ymgynghorwyr ar y dewisiadau posib o fewn y pentref wedi dod i law.

YR EGLWYS BRESBYTERAIDD

Yn yr oedfa nos Sul, 14 Medi, gweinyddwyd y Sacrament o Swper yr Arglwydd gan y Parch Reuben Roberts, Bontnewydd

Estynnwyd croeso i'r oedfa i Mrs Eirianwen Evans, 1 Ffrwd Madog a Mrs Gwyneth Evans, Ty'n Buarth yn dilyn cyfnodau yn Ysbyty Gwynedd ac anfonwyd cofion at Mrs Jennie Maxwell, Bro Dawel sydd ar hyn o bryd yng Ngharterf Y Foelas, Llanrug a Miss Blodwen Owen 2 Tai Orwig fu yn Ysbyty Eryri, ac yn awr ym Mhlas Pengwaith.

Y GYMDEITHAS. Cynhaliwyd cyfarfod o'r Gymdeithas yn y Ffestri nos lau, 18 Medi.

Y cadeirydd oedd Elen George, Sŵn yr Engan. Cymerwyd at y rhannau arweiniol ar thema'r Hydref gan Emyr Williams, Clwt-y-bont Y siaradwr gwadd oedd y Parch John Glyn, Llanllyfni. Ei destun oedd Gruffudd ap Cynan a chafwyd sgwrs gynhwysfawr ar y cymeriad allweddol hwn yn Hanes Cymru. Diolchwyd iddo gan y cadeirydd ac uwch paned, a baratowyd gan Joan Williams a Mair Wyn Davies, cafwyd trafodaeth bellach a chyfle i bawb werthfawrogi'r noson.

Bydd y cyfarfod nesaf nos lau, 9 Hydref pryd y bydd yr aelodau yn ymweld â'r Archifdy yng Nghaernarfon ac yn dilyn, i gloi tymor y Gymdeithas am eleni, bydd lluniaeth wedi ei baratoi yng Nghaban y Cwm, Cwm-y-glo gan Ann Emlyn Owen. Mae'n ofynnol i bawb nad ydynt wedi rhoi eu henwau eisoes i fynychu'r cyfarfod hwn, hysbysu Mr Gwyn Hefin Jones er trefnu'r cludiant a'r ymborth.

GARDIAU NADOLIG Bydd cyfle i'w eleni i brynu gardiau Nadolig a gyhoeddir dan nawdd y Cyngor Ysgollon Sul. Cysyllter â Lowri Roberts Williams, Godre'r Coed. OEDFAON HYDREF

- 5: Parch Trefor Jones, Caernarfon am 5.30
- 12: Parch Gwynfor Williams, Caernarfon am 10.00
- OEDFA DDIOLCHGARWCH am 2.00
- 19: Mr J.H.Hughes, Llanberis am 5.30
- 26: Parch H. Gwynfa Roberts am 10.00

DINORWIG

Miss Marian Jones, Minalt, 7 Bro Elidir, Dinorwig. 870292

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

PLYGU'R ECO. Er imi fod yn gyfrifol am blygu'r Eco yn yr ardal ers rhai blyneddodd bellach, nid wyf yn gallu dwyn i gof imi gael unrhyw fath o broblem fel ac a gefais eleni.

Yn y lle cyntaf, ni fedrwn gael benthg y Ganolfan, lle yr oeddym wedi arfer plygu'r Eco ar hyd y blyneddodd, a chan nad oedd unrhyw le addas arall yn yr ardal, yr oedd pethau yn edrych yn ddu. Ond ar ôl trin a thrafod hefo rhai o'r ardalwyr, nid oedd dim i'w wneud ond trio cael benthg festri Cefnywaun, felly dyma roi caniad i ddau o swyddogion yr eglwys i ofyn a oedd y festri ar gael nos lau, 28 Awst. Yr un ateb a gefais gan y ddau, sef CROESO. Dyma fynd ati wedyn i drefnu cludiant i rai a oedd am ddod i blygu. Pob peth wedi ei drefnu a finau wedi cael rhyw ollyngdod.

Ond yn anffodus, y bore canlynol dyma alwad ffôn yn dweud fod problemau ac na fyddai'r Eco o'r wasg hyd nos Wener, a chan fy mod innau wedi gwneud trefniadau i fod mewn man arrall rhaid oedd eu newid. Coeliwch fi neu beidio, yr oeddwn yn falch o weld yr wythnos drosodd, a'r gwaith wedi ei orffen yn llwyddiannus.

Carwn ddiolch o galon i swyddogion eglwys Cefnywaun am eu parodrwydd i roi benthg y festri. Diolch i bawb a ddaeth o'r ardal i'w blygu, yn ifanc ac yn hŷn, ac i'r rhai a gludodd y rhai nad oedd ganddynt gerbydau. Diolch arbennig i Jean Parc Jones ac Alison. Diolch i bawb a fu o gymorth i ddatrys y problemau a sicrhau llwyddiant yn y diwedd. YN YR YSBYTY. Drwg gennym fel ardal oedd deall fod Mr Griffith

Pritchard, Pen Dyffryn wedi gorfod mynd yn ôl i Ysbyty Gwynedd. Dymunwn adferiad llwyr a buan iddo. Hefyd rydym yn anfon ein cofion at Mrs Pritchard sydd yn cwyno gartref. Brysiwch wella eich dau.

ADREF O'R YSBYTY. Croesawn gartref o Ysbyty Gwynedd Mr Reginald Faulkener, Fron Dirion. Gobeithio yn arw ei fod yn gwella ac y cawn ei weld allan yn lled fuan.

NEWID ARDAL. Yr ydym fel ardal yn dymuno'n dda i Mrs Betty Lloyd Roberts, 11 Maes Eilian, sydd wedi symud o'r ardal i fyw. Mae Bet erbyn hyn wedi ymgartrefu yn 6 Bro Deiniol, Deiniolen. Gobeithio y bydd yn gallu setlo i lawr yno, gan iddi fod ym Maes Eilian yn byw am bump a thrigain o flynyddodd. Yr ydym yn dy golli yn barod, Bet.

CLWB ORWIG. Yng nghyfarfod cyntaf tymor yr hydref daeth Marian Gwyn i roi peth o hanes a chefnidir Castell Penrhyn. Diolchwyd iddi am sgwrs ddifyr gan Ray Bower.

Enillwyr y gwobrau a roddwyd gan Nellie Wyn Jones a Morfudd Jones oedd Betty Bower a Betty Ann Jones. Hwyl hefyd a roddodd y te. Anfonwyd y fasged o ffrwythau a llysiau i Reg Faulkener oedd newydd ddod o'r ysbyty.

Bu trafod ym mhle i ddathlu trydydd pen-blwydd y Clwb fis nesaf.

Gofynnwyd am wirfoddolwyr i gasglu o ddrws i ddrws at Age Concern o Fedi 22-27.

Etholwyd Andrew ac Alice Griffith, Megan Morris a N.W. Jones i gynrychioli'r Clwb yng nghyfarfod Blyneddol Age Concern.

Am Offer Tŷ a Gardd...


FORMAG

41A STRYD FAWR, LLANBERIS
Ffôn: (01286) 872501

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD CANOLFAN CARPEDI

WAUNFAWR

Ffôn/Ffacs: (01286) 650291



Dewis eang o Welyau a 3P/Suites. Llenni Venetian a Llenni Roler. 5,000 llathen sgwâr o garpedi mewn stoc - allwch chi fforddio prynu o batrymau?

GLANHAU CARPEDI GYDA STIMVAK

Ar Agor

9-7 pm

9-5 pm Sadwrn

Ar Gau

Sul a Mercher

Bistro
LLANBERIS

Ffôn 871278

www.ybistro.co.uk

Perchnogion: Danny a Nerys Roberts

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

Camera yn ngofal Heulwen Hughes, Argoed. Ffôn: (01286) 650556

YR EISTEDDFOD LEOL YN COFFAU UN ARBENNIG

Cynhelir Eisteddfod y Pentref eleni ar 15 Tachwedd yn y Ganolfan yn Waunfawr. Cynhelir Eisteddfod Plant Ysgol Gynradd yn y prynhawn ac Eisteddfod Dai gyda'r nos, gyda Thim Croesywaun a Thim y Post yn cystadlu yn erbyn ei gilydd. Y beirniaid fydd Deilwen Hughes o Fethel a Bethan Dobson o Bant Glas.

Colled fawr i'r pentref i gyd oedd colli Mr Wmffra Jones ddechrau'r haf, ond colled arbennig i Eisteddfod y Pentref y bu Wmffra yn gefnogwr mor bybyr iddi ar hyd y blynyddoedd. Er ei fod yn adnabyddus ar lwyfannau llawer pwysicach nag Eisteddfod fach Waunfawr, ni fethodd yn ei gefnogaeth i'r Eisteddfod leol, a rhoddodd gyfraniad amhrisiadwy trwy'r blynyddoedd fel cystadleuydd, fel aelod gweithgar iawn o'r pwyllgor ac, yn ddiweddar, fel Llywydd.

Er mwyn rhoi coffadwriaeth i Wmffra mae pwyllgor yr Eisteddfod wedi penderfynu rhoi cwpan bob blwyddyn yn wobwr i enillydd cystadleuaeth yr emyn.

Mae'r Eisteddfod yn agored i bob oedolyn a phlentyn sy'n byw yn Waunfawr a Betws Garmon ac i bob plentyn sy'n mynychu'r ysgol yn Waunfawr. Mae testunau ar werth yn siop y pentref. Am ragor o fanylion ffoniwch Sylvia Jones 650592.

Gobeithio cawn ni Eisteddfod ddal ADREF O'R YSBYTY. Carwn anfon ein cofion gan ddymuno gwellhad buan i Trefor, Pen-y-Graig, sydd erbyn hyn adref o'r ysbty, ble y derbyniodd llawdriniaeth frys i dynnu 'pendics'. CLWB 300. Dyma restr o enillwyr y Clwb 300 am fis Awst: £40: Mr R. McDaid, Lloches; £25: Ms Janet Smith, Rhoslan; £10: Mr W.M. Catt, Awel y Môr.

SEFYDLIAD Y MERCHED. Yn festri Croesywaun ar 4 Medi cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y Sefydliad ar ôl gwyliu'r haf. Croesawodd Mrs Catherine Jones, y Llywydd, yr aelodau yn ôl

wedi eu gwyliau ac estynnodd longyfarchiadau i rai o'r aelodau ar lwyddiant eu hwyrion a'u hwyresau yn yr arholiadau lefel A.

Y wraig wadd am y prynhawn oedd Mrs Catherine Hammel o Erddi Seiont. Cafwyd sgwrs ac arddangosiad ganddi ar sut i brynu a phlannu bylbiau ar gyfer y gaeaf a'r gwanwyn, a dangosodd yr aelodau ddiddordeb mawr trwy ofyn llawer o gwestiynau. Cafwyd atebion o fudd mawr ac edrychwn ymlaen rŵan am erddi lliwgar iawn y flwyddyn nesaf! Diolchodd y Llywydd i Mrs Hammel am ei sgwrs ac hefyd am roi dysgl o fylbiau cenin Pedr wedi eu plannu fel gwobr raffl. Yr enillydd oedd Mrs Wenna Edwards.

LLONGYFARCHIADAU

CERDDOROL. Estynnwn ein llongyfarchion i rai o blant y pentref ar eu llwyddiant yn yr arholiadau chwarae'r piano - i Pryderi Tomos, 12 Stad Tŷ Hen ar lwyddo yn yr arholiad Gradd 4, gyda theilyngdod; i Rhiannon Wyn Owen, Tyddyn Prior - Gradd 2 gyda theilyngdod ac i Hannah Latham, Haul a Gwynt ac Anya Price, Talmaen ar lwyddo mewn prawf paratoi.

DATHLU PEN-BLWYDD.

Llongyfarchiadau i Ffion Williams, Trigfa ar gyrraedd ei phen-blwydd yn 21. Dymuniadau gorau iti i'r dyfodol, Ffion.

GENEDIGAETH. Llongyfarchwn deulu Trefwen ar enedigaeth mab bychan, Gwion Peris, brawd bach i Eysyllt.

AR Y TELEDU. Cafwyd cip ar weithgareddau'r Antur ar y rhaglen deledu *Diolch o Galon* yn ddiweddar, pan fu Gwenda Owen yno yn sgwrsio gyda rhai o'r gweithwyr ac â Mr Gwynn Davies, Sylfaenydd yr Antur.

GWELLA. Da gweld bod Mrs Falmai Evans, Rhoslyn yn gwella wedi iddi dorri ei braich yn ddiweddar.

Mae Siôn Wyn, Arosfa wedi gwella hefyd ac wedi cychwyn yn yr ysgol wedi iddo gael llawdriniaeth tynnu tonsiliau yn

Ysbyty Gwynedd.

Hefyd mae Mrs Nancy Williams, 2 Bro Waun yn gwella ac wedi cael dod adref ar ôl derbyn llawdriniaeth yn yr ysbyty.

CYDYMDEIMLO. Yn dawel yn Ysbyty Bryn Seiont bu farw Mrs Annie Bennett, Llechwedd. Yn 96 mlwydd oed roedd yn un o drigolion hynaf y Waun. Cydymdeimlwn â'r teulu yn eu profedigaeth.

Yn sydyn yn ei chartref, 7 Ael y Bryn, bu farw Mrs Maud Jones. Estynnwn ein cydymdeimlad i'w phriod Mr Mark Jones ac i'w dwy ferch, Sylvia a Sharon, a'u teuluoedd.

MENTER. Dymunwn bob llwyddiant a diolchwn i Mr a Mrs Henderson, Siop y Pentref am gymryd y cyfrifoldeb o gynnal Swyddfa Bost yn y pentref. Bydd cael y gwasanaeth post yn ôl yn gymorth mawr i drigolion y pentref, rwy'n siŵr.

YNYR YSBYTY. Anfonwn ein cofion at Myra Turner, Collfryn sydd yn wynebu cyfnod o gael profion yn Ysbyty Gwynedd ac at ei mam, Mrs Betty Hughes, sydd yng Nghartref Preswyl Maesincla am gyfnod.

Mae rhai eraill o'r pentref yn wael ac yn gaeth i'w cartrefi. Anfonwn ein cofion cynhesaf atoch i gyd.

DIOLCH. Dymuna Mrs J.M. Roberts, 9 Bryngolau a'r teulu ddatgan eu gwerthfawrogiad am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag at Beryl a'i merch yn ei phrofedigaeth o golli ei gŵr, Gareth, yn Llanbedrog. Diolch am y cardiau a'r arian a'r galwadau ffôn.

PYSGOTWR O FRI.

Llongyfarchiadau i Peter Greasley, 7 Pant y Waun ar gael ei ddewis, am y pedwerydd tro, yn aelod o dîm Pysgota Plu Cenedlaethol Cymru. Y tro hwn ar Loch Leven yn yr Alban y bu Peter yn cynrychioli ei wlad yn y Gystadleuaeth Pedair Gwlad; daeth tîm Cymru yn ail y tro hwn.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL. Mae'r pwyllgor wedi bod wrthi'n trefnu rhaglen ar gyfer tymor y gaeaf ac ymddengys iddynt gael rhywbeth at ddant pawb.

Ymysg y siaradwyr bydd yr Athro Hywel Wyn Owen yn trin enwau lleoedd, fel ag y mae wedi bod wrthi ar Radio Cymru yn ddiweddar. Yn sicr estynnir croeso

Mae'n rhaid i mi siarad hefo rhywun

Y SAMARIAID
Bangor
(01248) 354646

arbennig i Dyfed Evans, Pencaenewydd, sydd yn ôl y sôn, wedi blynyddoedd o ddarlithio hwnt ac yma (gan gynnwys y Waunfawr fwy nac unwaith a rhoi cymaint o bleser i gynulleidfaedd), yn rhoi'r gorau i'r trin a thrafod. Ei bwnc fydd 'Guto Rhoslan', gwledd yn sicr.

Yn ogystal ceir darlith gan y Parchedig Harri Parri ar 'Elen Roger Jones', noson arall i'w mwynhau heb os. Gwir obaith y pwyllgor yw y bydd yr aelodau, hen a newydd rai, yn mynychu'r cyfarfodydd a fydd yn cychwyn ar nos Lun, 13 Hydref yn y Ganolfan. Pa ffordd well i fyrrhau y gaeaf?

YSGOL WAUNFAWR.

Hoffem fel ysgol ddiolch i Mrs Ann Marston am gyflwyno'r Wobr Gerddoriaeth i Huw Griffith a Sion Wyn Jones, y ddau o fl.6. Y wraig wadd eleni oedd Mrs Jean Soni, cyn-aelod o gerddorfa Philharmonic y BBC. Cafodd y plant sy'n derbyn hyfforddiant offerynnol gyfle i berfformio, a gwefreiddiwyd pawb gan gyfraniad Mrs Soni ar y fiola.

Yr un modd diolchwn i Mrs Eryl Thomas, y gyn-brifathrawes, a ddaeth i gyflwyno'r tarianau yn y Gwasanaeth Gwobrwyfo fore dydd lau, 17 Gorffennaf.

Enillydd y Darian Gywaith eleni oedd Victoria Taylor o fl.6; enillydd cywaith dosbarthiadau oedd Ild Griffith, bl.6; Meleri Gwyrfa, bl.5 a Jessica Williams, bl.4. Sharron Hanks o fl.5 oedd enillydd y Darian Ymdrech a Dion Evans a Liam Rowlands oedd enillwyr y Darian Gelf. Cyflwynwyd tocyn llyfr i Dion bl.6; Lea bl.4; Elin a Hannah Mair o fl.3; Angharad a Gruffydd, bl.1 a Grace o'r dosbarth meithrin am gasglu'r symiau mwyaf o arian ar y daith gerdded a beics noddedig.

Diolch hefyd i'r Cynghorydd Gwilym Williams am gyflwyno geiriaduron i ddisgyblion bl.6. Dymunwn yn dda iddynt yn Ysgol Syr Hugh Owen a Brynrefail.

I ddiweddu'r tymor cawsom Fabolgampau arbennig iawn. Roedd yn werth gweld y plant wedi gwisgo mewn coch, glas a melyn i gynrychioli'r tri thîm: Gwyrfa, Eilio a Cwellyn. Diolchwn i Mr Wyn Davies, cyn-athro yn Ysgol Syr Hugh Owen am ei waith ar yr uchel seinydd drwy'r dydd. Cyflwynodd y Darian i Ild a Ddewi, capteiniaid tîm Gwyrfa. Enillwyr y Tarianau Mabolgampau Unigol oedd Victoria Taylor a David Simpson, bl.6.



Holl enillwyr gwobrau Ysgol Waunfawr haf 2003. Gwych iawn!

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

EISTEDDFOD. Bu i nifer fawr o bobl gefnogi'r Noson Goffi er budd yr Eisteddfod yn ddiweddar. a gwnaethpwyd dros £200 o elw. Da hefyd, oedd yr ymateb gan y plant i ymuno ag amrywiol bartïon. Erbyn hyn mae prysurdeb y paratoi wedi cychwyn ac yn mynd yn ei flach gyda'r brwdfrydedd arferol. Buasai'r Swyddogion yn hynod ddiolchgar am unrhyw gyfraniad ariannol tuag at y gost o redeg yr Eisteddfod, a chydabyddir pob rhodd a dderbynnir cyn Hydref 30 yn Rhaglen y Dydd.

CYMDEITHAS DEILLION GOGLEDD CYMRU. Yn ddiweddar mae cwsmeriaid i'r Post yn Bethel wedi gweld Eliffant Pinc ar y cownter, sef blwch casglu newydd gan Gyndeithas Deillion Gogledd Cynru, Bangor. Dyma un o'r rhai cyntaf i'w ddosbarthu i gasglu er lles yr elusen hon. Diolch i Dylan Hughes an ganiatáu gosod y blwch casglu yno, gobeithio y gwnaiff llawer roddi ychydig o bres ynddo yn rheolaidd. Mae'r elusen yn dibynnu ar roddion mawr a bach am ei chyllid.

Y mae'r Elusen hon angen eich cefnogaeth gan ei bod yn cyflogi 5 Swyddog Adfer mewn cydweithrediad â Chynghorau Sir Gwynedd, Môn a Chonwy; yn cynnal Canolfan Adnoddau i helpu'r gwan ei olwg ym Mangor; yn cynhyrchu a dosbarthu Tapiau Newyddion a Gwybodaeth yn rheolaidd, gan gynnwys *Eco'r Wyddfa*, *Papur Dre*, a *Lieu*, i enwi rhai lleol yn unig; yn cynnal Cartref i'r Deillion yn Abergele; yn rhoddi hyfforddiant i'r rhannol ddall ar ddefnyddio cyfrifiaduron ac, o Swyddfa yng Nghaerfyrddin, yn recordio a dosbarthu Casetiau llyfrau Cymraeg i'r Deillion.

Mewn cydweithrediad â'r RNIB ceir Swyddog Adolygu budd-daliadau ym Mangor sy'n gallu cynghori a helpu i sicrhau bod pobol cofrestredig gwan eu golwg yn cael y budd-dal sy'n ddyledus iddynt. Nod y Gymdeithas yw gwneud popeth posibl i geisio sicrhau annibyniaeth i'r rhai sydd yn colli eu golwg. Os hoffai unrhyw un gynnig lle i Eliffant Pinc neu i anfon rhodd i'r Gymdeithas cysylltu â Gwilym Bowen, Cyfarwyddwr, Cymdeithas Deillion Gogledd Cymru, 325 Stryd Fawr, Bangor, Gwynedd LL57 1YB neu Ffônio 01248 353604 neu anfon e-bost - nwsb.bangor@btconnect.com

DIOLCH. Dymuna Robin Owen, Gofn Gynrig ddiolch o galon i Gymdeithas, ffrindiau a pherthnasau am y dymuniadau da a dderbyniodd pan raddiodd gyda B.Sc. ym Mhrifysgol Cymru Bangor yn ddiweddar.

CLWB 200 Y NEUADD. Enillwyr gwobrau'r Clwb 200 am fis Medi oedd - £50 (116) Glyn Roberts. Cefn y Gwynt; £25: (25) Lillian a Tom Jones, 17 Stad Eryri; £10: (84) Margaret Druce, 9 Tan y Cae.

Gwobrau Awst oedd y gwobrau olaf ym mwyddyn y Clwb 200. Mae'r rhan fwyaf o'r aelodau wedi talu eu £12 am y flwyddyn nesaf a bydd y casglwyr yn dod o amgylch y gweddill yn ystod y dyddiau nesaf. Taer erfynnir ar i'r holl aelodau ail-ymuno ac am aelodau newydd, i

sicrhau arian i gynnal y Neuadd am flwyddyn arall.

MERCHED Y WAWR. Cynhaliwyd noson agoriadol cangen Bethel yn Ysgol Bethel nos Fercher 10 Medi. Rhoddwyd croeso cynnes i bawb, yn aelodau hen a newydd gan y Llywydd, Anita Owen. Llongyfarchwyd plant yr aelodau ar eu llwyddiant yn yr arholiadau a dymunwyd yn dda i'r rhai sy'n newid ysgol ac yn cychwyn yn y coleg neu mewn gwaith. Dymunwyd gwellhad buan i un o'r cyn-aelodau, Mary Griffiths, Tre Cof sydd yn yr ysbty. Dymunwyd yn dda i ferch Sheila Roberts ar ei phriodas ddiweddar ac i Nora Parry ar ddathlu pen-blwydd arbennig.

Cafwyd arddangosfa o ddawnsio bol gan Marian, Jane a Claire. Yna, cafodd yr aelodau egniol gyfle i ymuno yn y dawnsio. Diolchwyd iddynt gan Nan Rowlands. Y pwyllgor oedd yn gyfifol am y lluniaeth ar ddiwedd y noson. Enillwyr y raffl oedd Sian Davies, Eirlys Williams a Rita Williams.

Yn ôl dymuniad y tair dawnswraig, bydd cyfraniad y gangen at eu costau yn cael ei roi i elusen yn ymwneud â Chancr y Fron.

Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Fercher, 8 Hydref.

LLONGYFARCHIADAU i Lynn Roberts Darwin, Tan-y-Buarth a Rhys ar eu priodas ddydd Sadwrn, 6 Medi. Dymuniadau gorau i'r ddau yn eu cartref newydd yng Nghaernarfon.

GWASANAETH LLEOL AR GYFER
PARTION • PRIODASAU
PEN-BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU

RHOSTIO
MOCHYN
AR GYFER
POB ACHLYSUR

* Cig o ffermydd lleol * Partion
rhwng 40 a 400!

* Gyda saws afal a stwffin mewn
rholiau

* Efo salad hefyd os dymunwch

DEWCS. MAE O'N FLASUS!

Cysylltwch â

JOHN BRYNAFON
LLANRUG

Y DYN CIG ar 675190 / 673188

EMYR
JONES

PLYMAR A
PHEIRIANNYDD
GWRESOGI



Cynnal boileri nwy,
olew, tanwydd solat
a thredio peipiau

44 Glanffynnon, Llanrug
CAERNARFON 673513
Ffôn Symudol: 07774 496616

CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

YSGOL CWM Y GLO

Mae'n rhaid i mi ymddiheuro am fod hen newyddion yr ysgol wedi ymddangos yn rhifyn mis Medi. Felly ar y dechrau fel hyn, fe hoffwn ddiolch yn arbennig i un fam sydd wedi bod yn hynod o weithgar a chefnogol i ni fel ysgol am flynyddoedd maith. Bu Mrs. Avril Jones (mam Carys ac Anest) yn drysorydd Cymdeithas Rhieni ac Athrawon yr ysgol am oddeutu pymtheng mlynedd. Gyda'i chysylltiadau â Chymdeithas yr Abbey National, llwyddodd Mrs. Jones i godi miloedd o bunnoedd i gronfa'r ysgol dros y blynyddoedd. Gan fod Anest erbyn hyn wedi dechrau yn Ysgol Brynrefail, mae Mrs. Jones bellach yn gorffen fel trysorydd. Braf yw cael nodi, serch hynny, ei bod yn parhau fel llywodraethwraig werthfawr iawn. Ar ran pawb ohonom, derbyniwch ein diolch mwyaf diffuant Avril - nid hawdd fydd cael rhywun mor ymroddgar.

Gydag Anest, fe gychwynnodd Rhian, Lauren, Sion Arfon, Sion Idwal, Sion Lloyd. Dewi a Robert yn yr ysgol uwchradd. Maent wedi ymgartrefu yno bellach ac rydym ninnau yn dymuno'r gorau oddynt yno. Roeddem yn falch iawn o glywed am lwyddiant ein cyn ddisgyblion pan ddaeth eu canlyniadau ym mis Awst. Daliwch ati a phob lwc.

Ond mae plant bach newydd wedi umuno â ni. Croeso mawr i Ffion Wyn, Catrin, Ffion Haf, Kieran, Lee, Kelly ac Ellie yn y Dosbarth Meithrin. Daeth Lloyd (bl.4) a Liam (bl.2) atom o Ysgol Dolbadarn a Spencer (bl.2) a Finlay (bl.0) o Ysgol Llandegai. Dychwelodd Jack Watling i bl.6 ar ôl blwyddyn o drafeilio gyda'i deulu yn Awstralia, Seland Newydd ac Indonesia. Cawsom orig ddiffr iawn yn gwrando arno yn adrodd ei hanes.

Braf hefyd yw cael croesawu Mrs. Anwen Roberts o Fethesda atom fel cymhorthydd fydd yn rhannu ei hamser gyda'r Babanod a B1. 3 a 4. Mae hi wedi hen setlo erbyn hyn.

Daeth plant Ysgol Bancyfelin, Sir Gaerfyrddin ar daith i'r gogledd a chawsant drip i fyny'r Wyddfa. Cyn mynd, cawsant dreulio rhyw awr gyda phlant yr ysgol. Peth braf oedd clywed acen y de a'r gogledd yn gymysg yn y gêm bêl-droed. Cyfnewidiwyd anrhegion i gofio'r achlysur.

Fel arfer, cafwyd diwedd prysur i dymor yr haf gyda nosweithiau rhieni, mabolgampau, tripiâu ac ymweliadau. Cafwyd y disgo a'r gwasanaeth ffarwelio arferol a chyflwynwyd gwobrau'r mabolgampau am y marciau uchaf i Anest Mair a Mared a Dewi Wynn. Aeth gwobrau am y cywaith unigol gorau ym M1. 5 i Amy Williams ac ym M1. 6 i Lauren Jordan. Cyllwynwyd tlws gan Adran Diogelwch y Ffyrdd am eu gwaith fel swyddogion ysgol i Anest a Sion Arfon.

Enillwyr Clwb yr ysgol mis Mehefin oedd Mr. Gwynhaf Hughes, Glasgoed, Llanrug; Mrs. Margaret Williams, Goleufryn a Mrs. Margaret Williams, Bryn, Cwm y Glo. Aeth gwobrau mis Gorffennaf

i Mrs. Rita Williams, 5 Minffordd, Brynrefail; Mrs. Gwyneth Roberts, Bod Gwynedd a Mr. Keith Williams, Bryn, Cwm y Glo. Cofwch fod cyfle i unrhyw un ymaelodi o'r newydd. Mae digon o rifau ar gael - £1 am bob rhif bob mis. Pob lwc i bawb.

Bydd yr ysgol ar gau dydd lau a Gwener, Hydref 2 a 3 oherwydd hyfforddiant mewn swydd. Rydym yn gobeithio cynnal ein Gwasaneth Diolchgarwch yng Nghapel Tabernacl Cwm y Glo, bnawn dydd lau, Hydref 23ain am 1.30 o'r gloch.

Mi garwn i ddiolch i bawb yn y gymdogaeth, yn deulu a ffrindiau, am gefnogi gweithgareddau'r ysgol drwy'r llynedd. Bydd digon ar y gweill eto eleni a byddwn unwaith eto yn falch o'ch croesawu chwi i ymuno â ni fel arfer.

UNDEB Y MAMAU. Cafwyd y cyfarfod cyntaf o dymor y gaeaf yn Eglwys Sant Gabriel nos Lun, 1 Medi. Gweinyddwyd y Cymun Bendigaid gan y Curad Vittoria Hancock. Cafwyd lluniaeth yn yr ysgol gynradd a thrafodwyd rhai materion a godwyd ym mhwyllogr y Cyngor yn Llanfaelog gan Mrs Dorothy Jones. Trefnwyd rhaglen ar gyfer y tymor ac anfonwyd dymuniadau am wellhad buan i Mrs Enid Taylor.

Yn gofalu am y lluniaeth oedd Mrs Gwyneth Roberts a Mrs Hilda Orritt. Rhoddwyd y raffl ganddynt hwy hefyd ac fe'i henillwyd gan Mrs Kath Jones. Rhoddwyd y diolchiadau gan Miss Meira Williams. Terfynwyd y cyfarfod trwy adrodd y Gras. Bydd y cyfarfod nesaf ar 6 Hydref yn yr ysgol gymuned.

ADREF O'R YSBYTY. Dymunwn wellhad llwyr a buan i Alison, 19 Dôl Afon a Mrs Dilys Jones, 4 Bryn Hyfryd ar ôl derbyn triniaethau yn Ysbyty Gwynedd.

Barbar 'Disglair' i Gwm-y-glo

Mae Terry yn *really cool* Yn y Ffrisan yn chwarae pŵl, Ond mae ef yn dechrau poeni Am fod 'i' wallt yn dechrau'i siomi.

Ar ôl hen dynnu coes I'r bathrwm aeth am oes, Buodd yn brysus gyda'r rasal; Cad at dy waith, a chei di ddim hasl!

Pan mae golau uwch ei ben Mae yna sglein, fel haul o'r nen, Ond hidia befo, 'Terry Bryn', Maent yn dweud, 'Daw haul ar fryn'.

SPAR


Y STORFA
LLANRUG

(Richard a Meirwen
Williams)

Ffôn: (01286) 672790

Ar agor bob dydd
o'r wythnos at eich
gwasanaeth
Nid oes unrhyw dâl am
ddanfôn archeb i'ch cartref
yn ardal Llanrug

CROESAIR HYDREF



Rhai o brif seremonïau yr 1 ar draws ym 23 i lawr eleni ydi'r pedwar ateb sydd heb gliwiau iddynt. Gwylwch - fe all rhai o'r atebion gynnwys mwy nag un gair.

Ar Draws:

- 4 Yn y fan hon, yn y man mwyaf dirgel ... (3)
- 5 ... ac eto yn y man ... (3)
- 8 ... yn bwrw glaw mân (7)
- 11 Gwisg y mynach (4)
- 12 Ffesant (7)
- 13 Ar ôl cyfnwidd dechrau a diwedd fory hefo dechrau'r wythnos, mae'n dal yn niwlog! (7)
- 15 Yr hyn a wna'r ci â'i ddannedd? Ie, ym mhob ystyr! (4)
- 17 Gresynus ers talwm! (4)
- 18 Gall pentref Llanwrda yn y de gynnig digonedd ... (7)
- 19 ... Iwt lol! (4)
- 20 Yn fawreddog yng ngardd un o 'lanciau'r pentre' (7)
- 21 Rhai sy'n plygu gerbron ... (7)
- 25 ... ond yn wastraffus (4)
- 27 Cynulladau i drafod ac i greu cyfreithiau (7)
- 28 Yn segur ac yn peidio gwneud ei waith! (4)

- 29 Offeryn bach a ddefnyddir gan saer i dorri tyllau (4)
- 31 Traethodau hir (7)
- 33 Pyst (7)
- 34 Eistedd yn ofalus ar wyau (4)
- 35 Y weithred o ymgynraedd at darged (7)
- 36 Mab fy mrawd ... (3)
- 37 ... ac o edrych yn ôl, dyna ei cnw hcfyd! (3)
- 38 Y rhai sy'n teithio ar droed (9)

I Lawr:


- 1 Llyfr eglurhaol, yn aml ynglŷn â'r Beibl (8)
- 3 Cerbyd caeedig o Rhostryfan? (3)
- 7 Gardd y cyhoedd (4)
- 9 Rhoi addewid (3)
- 14 Y rhai sy'n cael dod i'r briodas? (13)
- 16 IX yn Gymraeg (3)
- 19 Dictor (11)
- 22 Gorchfygu (8)
- 24 Yr ansawdd o fod yn glir (8)
- 26 Ennaint i'r penelin? (3)
- 30 Sŵn a wneir â'r genau (4)
- 32 Aderyn o'r blaned Neifion? (3)
- 35 Nid ... , ond dyma yw'r peth melyn hwn! (3)

Dowch i mi egluro cyn dechra' sut y daeth helygen newydd i fodolaeth! Rhywsut rhwng darllen y gair *grynddail* yn y geiriadur a'i osod yn y croesair, fe drodd yn *gwynddail*. Yr hyn â'm synnodd oedd fod cymaint ohonoch wedi derbyn bodolaeth y wynddail, gan ei chynnwys yn eich atebion! Yn wir, heb enwi neb, fe ysgrifennodd un ohonoch ei bod wedi dod ar draws *helygen wenddail* yn rhywle, a tybed mai dyna oedd gen i mewn meddwl. Ymddiheuriadau unwaith eto!!

Derbyniais atebion gan Megan Morris, Dinorwig; Nansi Davies, Rhuthun; E.E.Jones, Rhoshirwaun; H.O.Hughes, Pwllheli; Gwen Griffith, Deiniolen; Jennie Williams ac M.P. Jones, Clynnog; Eluned Jones a D.B.Williams, Trefor; Alvona Jones, Prestatyn; Pat Owen, Caerfyrddin; N.Hughes, Cwmyglo; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; Ceinwen Williams, Bethel; Catherine A. Jones a Jean Hughes Jones, Rhiw; Margaret Wyn Roberts a Mair Evans, Caernarfon; Nan Owen, Moreen Lennon, Vera Griffiths ac Olwen Owen, Llanberis; Nant Roberts, Ceridwen Williams ac Eirian Roberts, Llanrug ac un dienw.

Enillydd y mis ydi Pat Owen, Bryn Hebog, 13, Woodend, Llanmiloe, Caerfyrddin SA33 4UG Llongyfarchiadau a £5 i chi.

Ar ôl cwblhau croesair mis Hydref, gyrrwch eich atebion at Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun LL55 3HE erbyn Hydref 22^{fed}.



RHODDION

£25: Mrs Marian Roberts, Bryn Mâl, Llanberis (er cof am ei chwaer, Eirlys Griffith, Bryn Eilian)

£10: Mrs Jennie Robertst, 96 Pentre Helen, Deiniolen; Eirwen Rowlands, Llys Forgan, Llanrug; Er cof am Alwyn Williams (Barbar), Llanrug; Mrs Jean Walsh, 9 Hafan Elan, Llanrug; Mrs Megan Pritchard, Golygfa, Bryn Moelyn, Llanrug; Mrs Beryl Jones a'r teulu, Brithdir, Llanbedrog er cof am ei phriod, Gareth; Teulu y diweddar Len O. Pritchard, Cwm-y-glo; Idwal a Gwyneth Lloyd Roberts, Merddyn Coch, Llanberis.

£5: Iwan a Lorraine Williams, (gynt o Hafle, Rhes Faenol, Deiniolen); Mrs Eirianwen Evans, 2 Ffrwd Madog, Brynrefail; Bryan ac Eirian Williams, 19 Stad Glanffynnon, Llanrug; Teulu Bryn Rhydd, Penisarwaun er cof am Elwyn; Margaret Rose Prydderch Roberts, Bronallt, Olgra Terrace, Llanberis; Hugh Morris, 9 Rhes Fictoria, Llanberis; Katie Griffiths, 23 Maes Padarn, Llanberis; Hannah Jones, Tawel Lan, 2 Ffordd Padarn, Llanberis; Mari Wyn Lewis, Llanberis; Teulu'r diweddar Arfon Phillips; Pat Owen, Cefn Cynrig, Bethel; Rol Williams, fel gwerthfawrogiad am bob hwylustod.

£3: Mrs Elan Williams, Hafod Olau, Deiniolen.

£2: Caryl ac Iwan, Carlinig, Ffordd Tŷ Du, Llanberis; Haf Thomas, Buarthau, Llanrug.

**Cefnogwch
ein
Hysbysebwy**



Harddwch eich cartref gyda

**FFENESTRI
CELTIC** WINDOWS

FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS
CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL

Busnes teuluol gyda blynyddoedd o brofiad
Ffoniwch - 'dfo'n costio dim i gael pris

HEN YSGOL GLANMOELYN
LLANRUG LL55 2RG



(01286) 678618 (dydd)
(01248) 670081 (nos)



ARVONIA

LLANRUG Ffôn: 01286 675175

GWYLIAU CARTREF A THRAMOR

Cwmni teuluol gydag 20 mlynedd o brofiad o
redeg Pecynnau Gwyliau oll-gynhwysol

CHWARAEON

I Fyny Bo'r Nod



Rwyf wedi adrodd hanes sawl athletwr/wraig dros y blynyddoedd, mewn sawl un o gampau maes neu drac, ond ni chofiaf i mi groniclo perfformiad rhywun yng nghystadleuaeth y naid polyn o'r blaen. Mae'n gamp arbenigol iawn yn cyflysu cyflymdra, cryfder ac ystwythder.

Yr eneth dan sylw yw Alaw Ceris, disgybl 16 oed ym mlwyddyn 11 Ysgol Brynrefail. Mae prinder hyfforddwy yn y gamp yn lleol ac anaml y'i gwelir ar restr unrhyw fabolgampau ysgol. Mae'n dweddi llawer am ymroddiad Alaw ei bod wedi cyrraedd y fath safon. Dechreuodd ei haf cystadleuol ym Mhencampwriaeth Eryri ar drac Treborth ac, fel enillydd, aeth ymlaen i gynrychioli'r rhanbarth yn y gystadleuaeth i Ysgolion Cymru yn Aberhonddu ddechrau Gorffennaf. Ymatebodd yn dda i'r safon uwch a chipiodd y fedal arian.

Roedd y perfformiad yma yn ei galluogi i gynrychioli tîm Ysgolion Cymru yn y gystadleuaeth i wledydd Prydain yn yr oedran dan 17. Cynhaliwyd y bencampwriaeth yng Nghaerdydd, ac ymysg gorauon y gamp ledled Prydain, daeth Alaw yn wythfed. Y mae'r blas o fynd i gyfarfod rhyngwladol wedi bod yn sbardun i Alaw, er yr anhawster hyfforddiant, i weithio'n galetach i feistrolï'r gamp.

Fel mae'r llun ohoni'n dangos, gyda balchder mae hi'n gwisgo tracwsg Cymru a'r fedal arian - y gyntaf o lawer gobcithio.

Cysondeb

Chwaraewr proffesiynol yn rhegi dyfarnwr a'r camra a'i 'lygaid gweld popeth' yn anfon y lluniau i filoedd o gartrefi. Yr ifanc yn gwylio ac yn gweld ymddygiad o'r fath yn 'normal'.

Rhyw ddyfarnwr mewn gêm leol, ar ei ben ei hun, yn penderfynu dangos cerdyn coch am yr un drosedd.

Pa ddyfarnwr sy'n iawn? Pa ddyfarnwr sy'n gwneud y ffafir fwyaf â'r gêm? Oes un reol i rai ac un arall i craill?

Gwerthu'n Hunain?

Yn ystod yr wythnos yr wyf yn ysgrifennu hyn o lith, colodd dau o reolwyr timau uwch gynghrair eu swyddi. Dau meddech chi! Glen Hoddle a --? Ie, pwy? Mae'n siŵr fod y papur newydd a ddisgynnodd ar eich mat yn frith o newyddion am ddiwedd gyrfa Glen Hoddle fel rheolwr yn White Hart Lane. Cafwyd dadansoddiad o'i yrfa fel chwaraewr ganol cae amryddawn; ei gyfnod fel rheolwr Lloegr, a'i gyfnod simsan wrth y llyw yng ngogledd Llundain. Yn wir, gellir dweud fod darogan beiddgar y wasg ers wythnosau wedi chwarae rhan allweddol yn y penderfyniad i'w ddiswyddo. Cawsoch wybod y cyfan drwy golofnau'r *Post*, y *Mirror*, y *Sun* ac yn y blaen.

Y rheolwr arall o'r uwch gynghrair? Ie, Tomi Morgan, rheolwr - neu gyn-reolwr - tîm Caerfyrddin yn uwch gynghrair Cymru. Tomi pwy, meddai llawer iawn mae'n siŵr. A welsoch chi ddadansoddiad o'i yrfa fo yn y papur a ddisgynnodd ar y mat. Am ei gyfraniad fel chwaraewr dros y blynyddoedd i dimau'r canolbarth; fel rheolwr, ers dyddiau cynnar y gynghrair; am ei lwyddiant fel rheolwr tîm lled broffesiynol Cymru; am ei onestrwydd; am ei farn diflewyn-ar-dafod, am ei ffydd ddiysgog yn natblygiad pêl-

droed Cymru ymysg gwreiddiau y gêm. Sgersli bilif!

Yma erys y broblem fawr sy'n ein wynebu fel cenedl ym myd y campau ar hyn o bryd. Mae'r tîm cenedlaethol ar frig y don ar hyn o bryd ond, i fod yn onest, pitw yw'r sylw a roddir iddynt gan ein papurau dyddiol. Y mae llawer mwy o drafod Lerpwl ac Everton yn ein 'papur cenedlaethol' bob dydd nac am ein timau cynhenid ni.

Y mae'r diffyg sylw i dimau Cymreig ac elfennau Cymreig o fyd chwaraeon yn creu cam mawr â ni ac mae'r cyfryngau torfol yr un mor euog. Yn yr iaith Saesneg, pa sylw a roddir i bêl-droed Cymru ar wahân i ddangos goliau gemau sydd wedi bod? Pryd cawsom raglen drafod ar y teledu, ar unrhyw sianel, yn ymwneud â pêl-droed Cymru? Y mae safon rygbi ar ei wanaf ers blynyddoedd, ond eto cawn gêm fyw bob nos Wener a nos Sadwrn. Pedair awr yr wythnos, a'u hail-ddangos hyd syrffed ar raglen *Y Club* ar y Sul.

Gyda'r fath anghydbwysedd pa obaith sydd gan Cynghrair Genedlaethol Cymru i'w gwerthu ei hun, a denu noddwyr. Onid oes gan gyfryngau Cymru ddyletswydd i gefnogi a hybu'r gêm yng Nghymru? Rwyf wedi syrffedu ar y gri o 'rubbish' am ein cynghrair genedlaethol gan y llu o'r fro yma sy'n heidio i Lannau Merswy a Manceinion am eu 'fix'. A welir hwy ar yr Oval neu Ffordd Farrar neu'r Traeth yn gwylio gêm ganol wythnos? 'No way', mae 'na gêm ar Sky i'w gwylio!

Rydym oll yn gobcithio y gwelir Cymru draw ym Mhortiwgal yr haf nesaf. Treuliais fy ngwyliu yn ardal Lisbon yr haf yma ac mae'r paratodau sydd ar droed yno yn wych. Yn sicr mae pêl-droed yn rhan o fywyd y boblogaeth.

Mae pedwar papur newydd dyddiol yno yn trafod pêl-droed Portiwgal. Mae'r plant yn cerdded o gwmpas yng nghrysau Sporting, Benfica, Porto ac yn y blaen. Lle safai'r enwog 'Stadiwm y Goleuni' yn Benfica mae stadiwm newydd sbon ac i lawr y ffordd mae stadiwm newydd Sporting.

A welwn ni'r fath frwdfrydedd am bethau Cymreig yma? Ynteu dal i edrych am y canlyniad o Anfield, Old Trafford ac yn y blaen fydd ein hanes. Yn gwybod popeth am Fergie, Houllier a Wenger heb falio am ymdrech diflino Adie Jones, Viv Williams a'u tebyg!

Ie, llawer iawn i feddwl amdano pan floeddiwn, 'Wales! Wales!' ar 11 Hydref.

Tri Go Lew

Er mai prin gychwyn mae'r tymor pêl-droed, eisoes mae carfanau sirol y timau ysgolion yn cael eu didoli. Mae cryn draddodiad o chwaraewyr Ysgol Brynrefail yn britho'r timau hyn ac eleni, ar lefel -15 mae tri wedi cyrraedd tîm Gwynedd, sef Emlyn Roberts, Guto Llywelyn a Gareth Jones. O gofio'r gwaith caled a wneir yn ei hardaloedd yn hyfforddi a threfnu timau, braf fuasai gweld 'cap' yn dod i'r ardal, fyddai'n fodd i sbarduno'n hieuencid

Haelioni Eto



Gwreiddiau'r gêm yn Llanberis sy'n cael sylw y mis yma - neu tîm dan 9 y pentref, i fod yn fanwl gywir.

Tîm egniol iawn yw hwn ac, fel nifer cynyddol o'n timau ieuencid, dwylo merch sy'n llywio eu dyfodol. Y rheolwr yw Iola Owen o Nant Peris - un sydd wrth ei bodd yn rhoi o'i hamser. Rwy'n siŵr fod pob merch yn mynnu fod y sawl dan eu gofal yn drwsiadus ac at y pwrwl hwn cafwyd nawdd swmpus yn ddiweddar i gefnogi'r tîm. Drwy haelioni H.E. Hughes, y

dyn glo lleol, cafwyd set o ddillad lliwgar, a'r lliw melyn a phorffor yn cael eu gwisgo â balchder gan y tîm.

Mae'n tueddu i fod yn ocr o gwmpas Cae'r Ddôl ond ni fydd hynny'n broblem i'r tîm yma. Cyfrannwyd £150 gan griw o ferched sy'n mynychu'r sesiynau bingo yng Nghlwb y Lleng Brydeinig yn y pentref a £50 gan Westy'r Fictoria, Llanberis, a chyda'r arian prynwyd 'fleeces' cynnes ar gyfer aelodau'r tîm.

Mae'r pwyllgor yn diolch o

galon am haelioni'r noddwyr hyn. Ond un peth yw cdrych yn dda, peth arall ydy chwarae'n dda. Dim problem yma. Yn eu dillad newydd trechwyd tîm Bontnewydd yn gêm gynta'r tymor o 5-1, gyda'r tair gôl yn dod i Robat Owen - enw da i flaenwr o sgoriwr, er mae deryn bach yn dweud wrthyf mai'r cochion eraill o Fanceinion mae'r Owen yma'n gefnogi.

Pob hwyl i'r criw weddill y tymor a gobcithio y bydd eu perfformiadau yn cynhesu eu cefnogwyr!